Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arfer orau

Gorffennaf 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **9** |
| **Arfer dda mewn ysgolion** | **10** |
| Strategaeth | 10 |
| Cwricwlwm a chyfoethogi | 12 |
| Olrhain | 18 |
| Mentora a chymorth ar gyfer lles emosiynol | 19 |
| Pontio a lleoliad addysg | 23 |
| Datblygiad proffesiynol ar gyfer staff | 24 |
| Llais y dysgwr | 25 |
| Partneriaethau gyda rhieni a gofalwyr | 28 |
| Rôl llywodraethwyr | 30 |
| Y grant amddifadedd disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal | 30 |
| **Arfer dda mewn awdurdodau lleol** | **35** |
| Polisi awdurdodau lleol | 35 |
| Strategaeth awdurdodau lleol | 37 |
| Rôl aelodau etholedig | 40 |
| Systemau gwybodaeth reoli | 41 |
| Penderfyniadau am leoliad | 42 |
| Rôl cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal | 44 |
| Gwaith gyda rhieni a gofalwyr | 45 |
| Arfarnu ymyriadau a rhannu arfer orau | 46 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **48** |
| **Atodiad 2: Cyflawniad academaidd plant sy’n derbyn gofal** | **55** |
| **Atodiad 3: Enghreifftiau o gynlluniau addysg personol (CAPau)** | **59** |
| **Atodiad 4: Geirfa** | **71** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **74** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn 2015-2016 am gyraeddiadau, cyflawniadau a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr arfer dda sy'n bodoli mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer orau. Mae wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraethwyr, penaethiaid, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar y dystiolaeth yn Atodiad 1.

## Cefndir

Mae Deddf Plant 1989 yn diffinio plentyn mewn angen fel plentyn sy'n "annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael cyfle i gyflawni, neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb i wasanaethau gael eu darparu gan awdurdod lleol" (Prydain Fawr, 1989, 17.10).

Plant sy'n derbyn gofal yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw blentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol neu y mae adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn darparu llety ar ei gyfer am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr. Mae hyn yn cwmpasu plant y gwnaed gorchymyn gofal gorfodol neu orchymyn llys arall ynglŷn ag ef. Mae hefyd yn cyfeirio at blant sydd wedi cael eu lletya yn wirfoddol, gan gynnwys o dan gyfres gytûn o leoliadau tymor byr y gellir eu galw'n seibiannau byr, lleoliadau cyswllt teulu neu ofal seibiant. Mae plant sy'n derbyn gofal felly wedi eu dosbarthu'n blant mewn angen.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Yn ychwanegol, rhaid i gynghorwyr weithredu fel rhieni corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal neu a adawodd ofal yn ddiweddar. Rhaid i awdurdodau lleol nodi cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal i oruchwylio'r cynllun addysg a mynd i'r afael ag anghenion addysgol y plant hyn a phlant sy'n gadael gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn sicrhau bod cynllun addysg personol (CAP) yn cael ei ddatblygu o fewn 20 diwrnod o'r adeg y bydd plentyn sy'n derbyn gofal yn dechrau cael gofal neu'n ymuno ag ysgol newydd. Rhaid i bob corff llywodraethol ddynodi aelod o staff i fod â'r prif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol.

Tan fis Ebrill 2015, roedd elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei dyrannu i ysgolion. Roedd gan yr awdurdod lleol rôl ganolog o ran sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau'r grant. Er mis Ebrill 2015, mae'r pedwar consortiwm addysg rhanbarthol wedi bod yn gyfrifol am bennu sut bydd elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion o bron i £4 miliwn yn cael ei defnyddio.

Yn ogystal â'r adroddiad thematig hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil diweddar mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

- Elusen genedlaethol sy'n hyrwyddo safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yw 'Voices from Care Cymru'. Cynhaliodd sesiynau grŵp ffocws gyda phlant sy'n derbyn gofal ledled Cymru i gadarnhau eu safbwyntiau ar eu profiadau o ofal ac addysg, (Voices from Care, 2015).
- Mae'r Rhwydwaith Maethu hefyd yn elusen genedlaethol ac mae'n cynrychioli gwasanaethau maethu yn y DU. Cynhaliodd ymgynghoriad i ganfod beth sydd ei angen, yn ôl gofalwyr maeth yng Nghymru, i alluogi plant sy'n derbyn gofal i wneud cynnydd mewn addysg, (Y Rhwydwaith Maethu, 2015).
- Fe wnaeth Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, gynnal astudiaeth ymchwil ansoddol gyda phlant sy'n derbyn gofal, er mwyn darparu cipolwg ar eu profiad o addysg a'u barn ar yr hyn y gellid ei wneud i'w wella, (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Cyfrannodd y prosiectau ymchwil a nodwyd at ffurfio 'Strategaeth codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru' Llywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu cysylltiedig a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016.

Yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru, bydd y term "plant sy'n derbyn gofal" yn cael ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

**Beth ydym ni'n ei wybod am blant sy'n derbyn gofal?**

Caiff niferoedd, cyflawniadau a nodweddion plant sy'n derbyn gofal eu monitro gan nifer o arolygon gwahanol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o ddau gyhoeddiad allweddol (Llywodraeth Cymru, 2016b a 2016c). Mae niferoedd bach y plant sy'n derbyn gofal yn golygu y gall ffigurau amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn ac y dylid eu trin â gofal.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi aros yn gymharol gyson am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, roedd 5,617 o blant yn derbyn gofal. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal fesul awdurdod lleol yn amrywio o 78 yng Ngheredigion i 650 yng Nghaerdydd, (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ryw un o bob pump o blant sy'n derbyn gofal. Mae cyfran uwch na'r cyfartaledd o blant sy'n derbyn gofal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Canfu Cyfrifiad Plant mewn Angen 2015 fod problemau iechyd meddwl gan ryw 460 o blant sy'n derbyn gofal a bod pedwar o bob pump o'r rhain yn y grŵp oedran 10 i 17. Canfu'r cyfrifiad hefyd fod 305 o blant sy'n derbyn gofal wedi cael problemau camddefnyddio sylweddau, a bod tri chwarter o'r plant hyn yn y grŵp oedran 10 i 17. Mae rhiant sydd â phroblem iechyd meddwl gan ychydig llai na thraean y plant sy'n derbyn gofal, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Mae nifer y lleoliadau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod 2011-2015. Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn cael un lleoliad gofal mewn blwyddyn, ac mae tuag un o bob pump ohonynt yn cael dau leoliad. Fodd bynnag, mae tua 10% o blant sy'n derbyn gofal yn cael tri lleoliad gofal

neu fwy, (Llywodraeth Cymru, 2015b). Aeth tua hanner yr holl blant a adawodd ofal yn 2014-2015 yn ôl i fod yng ngofal eu rhiant/rhieni, perthynas neu rywun arall sydd â chyfrifoldeb rhiant; mae hyn yn cynnwys pobl sydd â gorchymyn gwarcheidwaeth arbennig (SGO). Cafodd ychydig llai nag un o bob pump ohonynt eu mabwysiadu o fod mewn gofal, (Llywodraeth Cymru, 2015b).

Er gwaethaf gwelliant dros y pedair blynedd ddiwethaf, nid oedd 45% o blant sy’n derbyn gofal mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NACH) neu nid oeddent mewn cysylltiad â’u hawdurdod lleol adeg eu pen-blwydd yn 19 oed, (Llywodraeth Cymru, 2015b). Mae hyn yn cymharu â thua 4.9% o’r holl blant eraill sy’n gadael ysgolion ar ddiwedd Blwyddyn 13, (Gyrfa Cymru, 2015).

**Cyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal**

Llwyddodd tua 64% o blant sy’n derbyn gofal i gyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn 2015. Mae’r gyfran hon 11 pwynt canran yn uwch na phan wnaeth y DCS ddisodli dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 1 i ddechrau yn 2012, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Yng nghyfnod allweddol 2, bu gwelliant o 16 pwynt canran, a llwyddodd tua dau o bob tri o blant sy’n derbyn gofal i gyflawni’r dangosydd pwnc craidd o gymharu ag ychydig llai na hanner ohonynt yn 2011, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Yn 2015, llwyddodd 48% o blant sy’n derbyn gofal i gyflawni’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3. Mae’r ffigur hwn yn welliant o 25 pwynt canran o gymharu â 2011, (Llywodraeth Cymru, 2016c).


Yn 2011, llwyddodd ychydig llai na chwarter y plant sy’n derbyn gofal, yng nghyfnod allweddol 4, i gyflawni trothwy lefel 2. Fe wnaeth hyn wella i ychydig llai na hanner yn 2015. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliant hwn, mae llai nag un o bob pump o blant sy’n derbyn gofal yn gadael addysg statudol gyda throthwy lefel 2 sy’n cynnwys cymwysterau TGAU mewn Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Ac eithrio’r bwlch yn nhrothwy cynhwysol lefel 2, sydd yr un fath ag ydoedd yn 2011, mae’r bwlch ym mherfformiad plant sy’n derbyn gofal o gymharu â’r holl blant wedi lleihau. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau nodedig yn parhau. Mae’r rhain yn amrywio o fwlch o 23 pwynt canran yn Nangosydd y Cyfnod Sylfaen a throthwy lefel 1 i fwlch o 40 pwynt canran rhwng plant sy’n derbyn gofal a’r holl ddisgyblion sy’n cyflawni trothwy lefel 2 yn gynhwysol, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Mae’r gostyngiad mwyaf yn y bwlch yn digwydd ar drothwy lefel 1 lle mae cyflymdra gwelliant plant sy’n derbyn gofal yn rhagori ar gyflymdra gwelliant yr holl blant eraill, er bod hynny o sylfaen is. Fodd bynnag, mae tua 71% o ddisgyblion sy’n derbyn gofal yn cyflawni trothwy lefel 1 o hyd, o gymharu â 94% o’r holl ddisgyblion eraill, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

Mae’r bwlch mewn cyrhaeddiad, ar draws y cyfnodau allweddol, rhwng bechgyn a merched sy’n derbyn gofal wedi gostwng yn sylweddol yn 2015 i lefel sy’n debyg i lefel yr holl ddisgyblion. Mae’r gostyngiad hwn i raddau o ganlyniad i gynnydd yn lefelau cyrhaeddiad bechgyn sy’n derbyn gofal, ar yr un pryd â gostyngiad yn lefelau cyrhaeddiad merched sy’n derbyn gofal, (Llywodraeth Cymru, 2016c).

**Siart 1: Canran y Plant mewn Angen sy'n cyflawni mesurau perfformiad allweddol ar draws y cyfnodau allweddol, o gymharu â'r holl ddisgyblion, Cymru, 2012 i 2015**




Gweler yr Eirfa am ddiffiniadau llawn o'r dangosyddion.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru 2016c, 2016d

Gellir gweld dadansoddiad pellach o gyrhaeddiad plant mewn angen nad ydynt yn derbyn gofal, o gymharu â phlant sy'n derbyn gofal, yn Atodiad 2.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol o ran cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal
- dyheadau uchel ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- aelod o uwch dîm rheoli'r ysgol sydd â chyfrifoldeb am gyflwyno strategaeth yr ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- dealltwriaeth glir o anghenion academaidd, cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- systemau olrhain cynhwysfawr sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff a'u dadansoddi gan yr athro dynodedig
- staff sy'n ymwybodol o'r plant sy'n derbyn gofal, eu hanghenion a pha strategaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo
- cymorth cryf ar gyfer plant sy'n cael gofal i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd
- systemau gofal cryf sydd wedi eu teilwra'n dda i anghenion emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- cymorth i feithrin gwydnwch, hunan-barch a hyder sydd wedi'i gynllunio ac yn gweddu'n dda i anghenion plant, er enghraifft trwy grwpiau anogaeth
- unigolyn wedi'i enwi sy'n rhoi cymorth fel anogwr dysgu
- darparu cyfle i blant sy'n derbyn gofal gymryd rhan mewn clybiau ar ôl yr ysgol neu weithgareddau allgyrsiol eraill fel teithiau neu brofiad gwaith
- llywodraethwr dynodedig ymroddgar sy'n meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion plant sy'n derbyn gofal
- gwaith targedig gyda gofalwyr i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn well i gynorthwyo'r plant y maent yn gofalu amdanynt
- ffocws clir ar ddatblygu medrau bywyd plant sy'n derbyn gofal a chynllunio ar gyfer eu cyfnod pontio a'r adeg pan fyddant yn gadael gofal
- arfarnu eu dulliau'n rheolaidd, gan gynnwys cael adborth gan blant sy'n derbyn gofal, i wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn ymhellach

2 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal ac yn creu ethos cefnogol. Maent yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ac arweiniad ychwanegol ar y plant hyn i lwyddo, ac yn sicrhau bod mecanweithiau priodol i hyn ddigwydd. Yn yr ysgolion hyn, mae'r uwch dîm rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am wella gwaith yr ysgol gyda phlant sy'n derbyn gofal.

3 Nodwedd gref mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yw'r ystod gynhwysfawr o ddulliau a ddefnyddir i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a rheolwyr yn addasu systemau ysgol gyfan effeithiol i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

4 Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod angen cymorth emosiynol ac academaidd ychwanegol yn aml ar blant sy'n derbyn gofal, ac maent yn hyblyg o ran darparu'r cymorth ychwanegol hwn, yn enwedig mewn cyfnodau o anhawster personol. Mae gan lawer o ysgolion ffocws penodol ar ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

5 Mae trafodaethau â thiwtoriaid dosbarth, fel gweithgaredd mentora wedi'i gynllunio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn digwydd mewn lleiafrif o ysgolion. Mewn rhai ysgolion, cynhelir sesiynau mentora ffurfiol ar gyfer y disgyblion hyn gydag aelodau o'r uwch dîm rheoli a mentoriaid o'r tu allan i'r ysgol. Mae'r ysgolion hyn yn effeithiol o ran codi dyheadau ac uchelgeisiau plant sy'n derbyn gofal.

6 Mae gan bob un o'r ysgolion systemau olrhain sy'n ddefnyddiol o ran monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal. Mae'r systemau olrhain hyn yn hynod effeithiol pan fydd pob un o'r staff yn deall a diweddaru gwybodaeth olrhain unigol yn rheolaidd.

7 Mewn llawer o ysgolion, ceir systemau cymorth bugeiliol cryf iawn. Mae'r rhain yn cynnwys aelodau allweddol o staff ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal. Mae ychydig iawn o ysgolion yn neilltuo anogwyr dysgu i ddisgyblion ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol. Yn aml iawn, yr aelodau hyn o staff yw'r bobl gyntaf y bydd plant sy'n derbyn gofal yn troi atynt pan fydd angen cyngor, cymorth neu gysur arnynt.

8 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sefydlu grwpiau anogaeth i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Trwy waith mewn grwpiau addysgu bach a strwythuredig, mae grwpiau anogaeth yn galluogi disgyblion i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda staff addysgu a datblygu'r medrau a'r ymddygiadau cymdeithasol sydd eu hangen arnynt i ddysgu'n effeithiol mewn dosbarthiadau mwy. Pan fo grwpiau anogaeth yn bodoli, mae disgyblion sy'n derbyn gofal yn ymateb yn gadarnhaol ac yn gwella'r modd y maent yn ymgysylltu â staff a disgyblion eraill.

9 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sefydlu clybiau ar ôl yr ysgol yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn y clybiau, gallai disgyblion gael cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd neu ddefnyddio ystod o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn yr enghreifftiau gorau, mae gweithgareddau allgyrsiol hefyd yn helpu plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu eu hannibyniaeth a pharatoi ar gyfer gadael gofal. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau ar ôl yr ysgol yn rhy gyfyngedig ledled Cymru.

10 Mae llawer o ysgolion yn cynnal hyfforddiant blynyddol ar gyfer staff ar grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn defnyddio sesiynau hyfforddi'n ddigon da i godi ymwybyddiaeth staff am brofiadau plentyndod nodweddiadol plant sy'n derbyn gofal a'r modd y gallai'r profiadau hyn effeithio ar eu hymddygiad a'u hagwedd at ddysgu.

11 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae penaethiaid yn darparu adroddiadau clir i lywodraethwyr ar effaith eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae lleiafrif o ysgolion yn elwa ar ymroddiad personol, profiad a gwybodaeth ehangach y llywodraethwr dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ei rôl. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd cyrff llywodraethol o ran darparu her addas a phriodol i benaethiaid yn amrywio gormod ledled Cymru.

12 Mewn llawer o ysgolion, caiff plant sy'n derbyn gofal ystod eang o gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau am eu hysgol. Mae mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio adborth gan ddysgwyr yn dda, ynghyd ag ystod o wybodaeth, i arfarnu eu gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnal digwyddiadau ymgynghori rheolaidd rhwng y disgybl a'r athro ac mae ychydig iawn o ysgolion yn gofyn yn eglur am safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal i lywio cynllun datblygu'r ysgol.

13 Mae bron pob un o'r ysgolion yn meithrin perthnasoedd effeithiol gyda gofalwyr maeth. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi penodi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i ofalwyr maeth. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu gofalwyr i gyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ba mor agored i niwed yn gymdeithasol ac yn emosiynol yw plant sy'n derbyn gofal.

14 Roedd yr holl ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn benodol ac yn briodol i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac academaidd plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o'r blaenoriaethau yng nghynlluniau gwariant rhanbarthol eu consortiwm ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi sicrhau bod y cynlluniau hyn yn bodloni anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal yn ddigon da.

15 Mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol sydd fwyaf effeithiol wrth godi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal yn meddu ar y nodweddion canlynol:

- uwch reolwyr ac aelodau etholedig sy'n deall anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal yn eu hardal, eu cyfrifoldebau eu hunain a'r strategaeth leol i gefnogi'r grŵp hwn
- cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal sy'n darparu arweinyddiaeth gref i ysgolion ac yn hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, yr adran addysg a gwasanaethau cymdeithasol
- dull rhagweithiol o chwilio am arfer orau, a'i rhannu, mewn perthynas â'r modd y mae ysgolion yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal
- systemau olrhain cadarn, a ddefnyddir yn dda i gefnogi craffu agos ar effeithiolrwydd gwaith yr awdurdod lleol gydag ysgolion i wella cyrhaeddiad, cyflawniad ac uchelgais plant sy'n derbyn gofal
- hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer staff a gofalwyr ysgol i'w helpu i ddeall a chefnogi anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal
- dealltwriaeth ar y cyd o flaenoriaethau rhanbarthol, lleol a chenedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a chyfatebiaeth rhyngddynt
- cynlluniau addysg personol o ansawdd uchel sy'n cael eu datblygu ar y cyd ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau clir, gan gynnwys nodau ar gyfer datblygiad personol ac annibyniaeth
- arfarnu eu dulliau'n rheolaidd, gan gynnwys gofyn am adborth gan blant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ac ysgolion, ymhellach i wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn

16 Mae polisïau'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cysylltu'n dda â pholisïau corfforaethol eraill, fel annog yr holl blant sy'n derbyn gofal i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant pan fyddant yn gadael yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oes gan awdurdodau lleol bolisi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu nid ydynt yn gosod targedau priodol ar gyfer eu cyrhaeddiad.

17 Ym mhob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, ceir cyfathrebu effeithiol trwy adrodd yn flynyddol wrth bwyllgorau craffu a rhanddeiliaid eraill. Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant

mewn agweddau ar ddarpariaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Fodd bynnag, fel rhieni corfforaethol, mae eu heffeithiolrwydd o ran codi cyrhaeddiad a chyflawniad plant sy’n derbyn gofal yn rhy amrywiol ledled Cymru. Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, nid yw’r strategaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn gyfoes ac mae rôl y panel rhianta corfforaethol yn aneglur.

18 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae strategaethau awdurdodau lleol yn canolbwyntio’n gryf ar wella’r modd y mae gwahanol wasanaethau ac ysgolion yn gweithio gyda’i gilydd i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal. Mae cydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn ddolen gyswllt effeithiol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Mae cydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn hanfodol i lwyddiant awdurdodau lleol o ran gwella cyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal ac mae ansawdd yr arweinyddiaeth a gwaith y cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yn gryf bron ym mhob awdurdod lleol yr ymwelwyd ag ef. Mae bron yr holl gydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn gweithio’n dda gyda gwahanol bartneriaid i sicrhau bod cynlluniau addysg personol yn cael eu llunio o fewn 20 diwrnod. Fodd bynnag, mae ansawdd cynlluniau addysg personol yn amrywio gormod ac nid yw lleiafrif ohonynt yn canolbwyntio’n ddigon da ar ddeilliannau nac yn cynnwys targedau ar gyfer datblygiad personol ac annibyniaeth.

19 Mae’r rhan fwyaf o gydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ble mae arfer orau’n bodoli yn eu hardal leol ac yn rhoi cyngor buddiol i ysgolion. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn ddigon rhagweithiol o ran arfarnu’r hyn y maent yn ei wneud neu’n ceisio’i wneud ac yn rhannu arfer orau ag ysgolion. Yn ychwanegol, nid yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn canolbwyntio eu cymorth a’u hyfforddiant ar gyfer ysgolion yn ddigon da ar sut gall ysgolion ddeall a chefnogi yn well anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant sy’n derbyn gofal.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Adeiladu ar arfer orau yn unol â nodweddion ysgolion effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn

**Dylai awdurdodau lleol:**

A2 Adeiladu ar arfer orau yn unol â nodweddion awdurdodau lleol effeithiol a nodwyd yn yr adroddiad hwn

**Dylai'r consortia rhanbarthol:**

A3 Wella'r modd y maent yn cynllunio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i wneud yn siŵr bod ysgolion yn glir ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r grant a bod eu cynlluniau'n rhoi digon o ystyriaeth i anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 Ystyried ehangu mesurau perfformiad i gynnwys cynnydd o gymharu â man cychwyn y plant ac yn ymestyn y tu hwnt i oedran ysgol statudol

A5 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau gwariant y consortia rhanbarthol yn briodol i angen lleol ac wedi eu seilio ar ddadansoddiad cadarn o anghenion plant sy'n derbyn gofal

## Arfer dda mewn ysgolion

### Strategaeth

20 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae penaethiaid ac uwch arweinwyr yn darparu gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Mae ganddynt ddyheadau uchel ar gyfer y plant hyn. Maent yn cydnabod y gallai fod angen cymorth ac arweiniad i lwyddo ar blant sy'n derbyn gofal ac yn sicrhau bod mecanweithiau priodol i hyn ddigwydd. Maent yn ymdrechu i greu ethos ysgol cynhwysol, lle croesewir amrywiaeth.

21 Nodwedd gref a welir mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yw ystod gynhwysfawr y dulliau a ddefnyddir i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a rheolwyr yn addasu systemau ysgol gyfan effeithiol i fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal.

22 Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn ysgol y barnwyd yn ddiweddar ei bod yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol Dyffryn Conwy – cymorth rhagorol i blant sy'n derbyn gofal**

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog naturiol ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Dyffryn Conwy. Mae 670 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 150 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae bron i 8.2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Ar gyfer bron pob un o'r disgyblion, Cymraeg yw prif iaith yr addysgu ac maent yn astudio Cymraeg fel mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sy'n derbyn gofal.

**Strategaeth**

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi rhoi blaenoriaeth uchel i gynnydd a chyflawniad plant sy'n derbyn gofal. Caiff cynnydd a lles plant sy'n derbyn gofal eu hadolygu bob wythnos gan yr uwch dîm rheoli. Mae aelod o'r uwch dîm rheoli yn gweithredu fel yr athro dynodedig ac mae'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

**Gweithredu**

Caiff cynnydd, cyflawniad a phresenoldeb disgyblion eu holrhain yn ofalus fel rhan o strategaethau 'cau'r bwlch' yr ysgol.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r gofal corfforaethol sydd gan yr ysgol am blant sy'n derbyn gofal ac maent yn ymateb i flaenoriaethau i gau'r bwlch fel rhan o gynllun gwella'r ysgol.

Caiff plant sy'n derbyn gofal eu cynorthwyo'n dda gan y tîm bugeiliol a chymorth dysgu bob dydd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn barod ar gyfer dysgu a bod unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar gael iddynt.

Yn ychwanegol, cânt gymorth trwy ymyriadau llythrennedd a rhifedd. Gallant hefyd gymryd rhan mewn cynlluniau offerynnau cerdd, profiadau gwaith estynedig a theithiau ac ymweliadau i ehangu eu gorwelion. Yn olaf, cânt gymorth arbenigol, yn cynnwys gan gwnselwr yr ysgol.

Mae cymorth yn amrywio yn unol ag anghenion, dyheadau a doniau disgyblion. Mae'r cymorth yn ymestyn trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, gan gynnwys yn y chweched dosbarth.

Mae cynllunio manwl yn digwydd ar gyfer unigolion ac fe gaiff ei adolygu'n rheolaidd gyda disgyblion a'u gofalwyr.

Mae disgyblion a'u gofalwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth cynnar a'r adborth a roddir iddynt o ran llwyddiannau a heriau disgyblion. Ceir bartneriaeth gref rhwng yr ysgol, y gofalwyr maeth a'r gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r corff llywodraethol a'r llywodraethwr cyswllt ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn deall eu rôl yn dda ac yn darparu cymorth a her effeithiol i'r ysgol.

**Deilliannau**

- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae cyflawniad plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol wedi cymharu'n dda â chyflawniad eu cyfoedion, ac mae bron yr holl ddisgyblion wedi llwyddo i gyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a throthwy lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 4.
- Mae'r holl blant sy'n derbyn gofal wedi trosglwyddo o gyfnod allweddol 4 i'r chweched dosbarth, y coleg neu gyflogaeth.
- Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol well na'r holl ddisgyblion eraill.

23 Mae gan lawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ddisgwyliadau uchel, ond realistig, am y cynnydd y gall disgyblion ei wneud yn yr ysgol. Maent yn sicrhau bod systemau sy'n cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, yn academaidd ac yn fugeiliol, yn gweddu i'r disgwyliadau hyn. Yn gyffredinol, mae'r ysgolion hyn yn cydnabod y bydd angen cymorth ychwanegol ar blant sy'n derbyn gofal.

24 Nid oes gan leiafrif o ysgolion strategaeth na pholisi wedi'i ddogfennu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw lleiafrif sylweddol ohonynt yn ymwybodol o strategaeth yr awdurdod lleol, ac ychydig o ysgolion yn unig sy'n ymwybodol o gynllun y consortiwm rhanbarthol ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Felly, ni all ysgolion fod yn sicr fod eu gwaith yn cyd-fynd yn ddigon da â blaenoriaethau rhanbarthol.

25 Mewn rhai ysgolion, ceir cysylltiadau clir rhwng dadansoddiad yr ysgol o ddata yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a meysydd ysgol gyfan i'w gwella. Mae'r

ysgolion hyn yn myfyrio ar eu dulliau ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ba strategaethau a dulliau sy'n gweithio i blant sy'n derbyn gofal. Maent yn ymdrechu i wella'r profiadau a'r deilliannau dysgu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion yn unig sy'n gwneud cyfeiriadau clir at blant sy'n derbyn gofal yn eu cynllun gwella ysgol. Mae'r cyfeiriadau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. At ei gilydd, ychydig iawn o sylw a roddir i gyflawniadau, heblaw presenoldeb a gwaharddiadau, neu i godi dyheadau plant sy'n derbyn gofal.

26 Mae gan fwyafrif yr ysgolion ddealltwriaeth glir fod plant sy'n derbyn gofal yn debygol o wynebu rhwystrau rhag dysgu. Gallai'r rhwystrau hyn gynnwys anawsterau emosiynol a seicolegol a phroblemau diogeledd ac ymlyniad. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn glir ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

27 Mae lleiafrif o ysgolion yn cynllunio ystod y ddarpariaeth i blant sy'n derbyn gofal yn glir iawn. Mae gan yr ysgolion hyn systemau cynllunio cydlynus ar waith, ac mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod pob un o'r staff, gan gynnwys uwch arweinwyr a rheolwyr, yn ymwybodol o'u dyletswyddau tuag at blant sy'n derbyn gofal.

28 Er gwaethaf y cryfderau amlwg yn y dulliau strategol a ddefnyddir gan ysgolion, mae yna ddiffygion. Er enghraifft, nid oes gan ysgolion ddealltwriaeth ddigon da o anghenion ehangach plant sy'n derbyn gofal, fel y rheiny a amlinellir yn adran cefndir yr adroddiad hwn. O ganlyniad mae bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth ysgolion am ystod y materion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal.

## Cwricwlwm a chyfoethogi

29 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, gall plant sy'n derbyn gofal gymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau cwricwlwm a chyfoethogi sydd ar gael i bob dysgwr. Mae llawer o ysgolion yn cydnabod bod angen cymorth cwricwlwm ac emosiynol ychwanegol yn aml ar y disgyblion hyn i'w galluogi i gyrraedd eu potensial.

30 Yn Ysgol Gyfun Cwrt Sart yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae gan blant sy'n derbyn gofal, a chanddynt anghenion penodol, gwricwlwm pwrpasol yn ychwanegol i'r hawl graidd i'r cwricwlwm. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar gael gwersi mewn canolfannau astudio a chymorth dysgu. Pan fo'n briodol, mae gan ddisgyblion amserlenni llai. Mewn achosion o'r fath, cânt gymorth cwricwlwm a bugeiliol gan staff addysgu a staff cymorth.

31 Nododd Ysgol Gyfun Tonyrefail nad oedd plant sy'n derbyn gofal yn gwneud digon o gynnydd o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn sgil nifer o ffactorau.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Gyfun Tonyrefail – cymorth ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i wella eu hyder a'u llwyddiannau mewn llythrennedd a rhifedd**

**Cyd-destun**

Ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Gyfun Tonyrefail ac mae ganddi 931 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua chwarter y disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar draws yr ysgol, mae 14 o blant sy'n derbyn gofal.

**Strategaeth**

Nododd yr ysgol fod angen gwella hyder plant yn yr ysgol, a'u cyflawniadau mewn llythrennedd a rhifedd.

**Gweithredu**

Nododd yr ysgol fod plant sy'n derbyn gofal yn cael trafferth â llawer o agweddau ar lythrennedd a rhifedd, oherwydd eu profiadau bywyd, yn cynnwys newid ysgolion a phresenoldeb gwael. Roedd hyn yn rhwystr sylweddol rhag iddynt wneud cynnydd yn yr ysgol. Cydnabu'r ysgol hefyd fod llawer o blant sy'n derbyn gofal yn cael anawsterau o ran deall a rheoli eu teimladau a'u hemosiynau.

Penododd yr ysgol aelod o staff yn benodol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal, a datblygodd ystafell adnoddau. Gall disgyblion fanteisio ar y ddarpariaeth hon i gael cymorth academaidd a bugeiliol ychwanegol gan staff.

Caiff disgyblion asesiadau cychwynnol a defnyddir y rhain i bennu ymyriadau priodol. Mae gan ddisgyblion amserlenni cymorth ac ymyrraeth pwrpasol. O ganlyniad, cânt gymorth un i un, cymorth grŵp bach a chymorth yn y dosbarth i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws yr holl bynciau. Defnyddia'r ysgol nifer o raglenni ymyrraeth sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion.

Mae aelodau o bwyllgor craffu ar addysg a dysgu gydol oes yr awdurdod lleol yn ymweld â'r ysgol i arfarnu'r ddarpariaeth. Yn ychwanegol, mae disgyblion sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac arfarniadau o'r ddarpariaeth. Mae gofalwyr maeth yn rhoi adborth cadarnhaol. Mae eu sylwadau'n cynnwys:

"Rwy'n meddwl bod yr ysgol wedi rhoi adnodd defnyddiol iawn i ni o ran cynorthwyo addysg a datblygu medrau ein plentyn…"

"…Rydym ni'n cael gwybodaeth ragorol ynglŷn â'r hyn yr oedd y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, a sut mae o fudd i'n plant…"

**Deilliannau**

- Yng nghyfnod allweddol 3, llwyddodd pob un o'r disgyblion i wella eu medrau darllen. Dros gyfnod o bedwar mis, llwyddodd mwyafrif y disgyblion i wella eu

hoedran darllen gan dros flwyddyn a llwyddodd lleiafrif o ddisgyblion i wella’u hoedrannau darllen o dros ddwy flynedd.

- Yng nghyfnod allweddol 3, gwnaeth yr holl ddisgyblion gynnydd da mewn Saesneg a mathemateg, ac aeth mwyafrif y disgyblion ymlaen i’r lefel nesaf.
- Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ar y trywydd iawn i gyflawni eu graddau disgwyliedig mewn TGAU mewn Saesneg a mathemateg. Mae’r holl ddisgyblion eisoes wedi cael graddau llwyddo yn eu cyrsiau BTEC.
- Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol ar gyfer plant unigol sy’n derbyn gofal wedi gwella, ac yn cymharu’n ffafriol â phresenoldeb disgyblion eraill yn yr ysgol erbyn hyn. Yn 2014-2015, roedd cyfraddau presenoldeb yr holl blant sy’n derbyn gofal yn fwy na 95% a chyfraddau traean ohonynt yn 100%. Mae hyn yn cymharu â chyfradd presenoldeb o 92.4% yr holl ddisgyblion eraill yn yr ysgol.

32 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o blant sy’n derbyn gofal yn elwa ar raglenni dysgu unigoledig yng nghyfnod allweddol 4. Gallai’r rhaglenni hyn gynnwys addysg ar safle’r ysgol, ac oddi ar y safle. Caiff disgyblion gyfleoedd i ddilyn cyrsiau galwedigaethol mewn colegau addysg bellach. Pan fydd y profiadau cwricwlwm ategol hyn wedi cael eu cynllunio’n dda ac wedi’u seilio ar ddyhead a gallu unigol, mae disgyblion yn ymgysylltu’n dda â nhw, yn llwyddo, ac yn gwella’u hunan-barch.

33 Mae cyfleoedd cyfoethogi priodol ar gael i blant sy’n derbyn gofal mewn llawer o ysgolion. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn clybiau sy’n cael eu rhedeg gan yr ysgol, er enghraifft mewn chwaraeon, yn y celfyddydau creadigol, Gwobr Dug Caeredin a gweithgareddau dylunio a thechnoleg. Pan fo’n briodol, er mwyn codi eu dyheadau, caiff disgyblion hŷn gyfleoedd i ymweld â phrifysgolion.

34 Un o gryfderau penodol y cwricwlwm yn Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh yw darpariaeth eu cwricwlwm oriau deffro. Mae staff ysgol a staff gofal yn gwneud yn siŵr bod ymyriadau a phrofiadau cynlluniedig yn cael eu teilwra yn unol ag anghenion unigol disgyblion. Yn ogystal â gwaith yn yr ysgol, mae staff gofal preswyl yn cyflwyno rhaglen annibyniaeth sy’n helpu disgyblion i ddatblygu medrau domestig a chadw tŷ. Mae hyn yn helpu disgyblion i drosglwyddo o’r ysgol i fyw â chymorth.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh – mae’r cwricwlwm oriau deffro yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau byw yn annibynnol i gefnogi eu cyfnod pontio o’r ysgol i fyw â chymorth**

**Cyd-destun**

Ysgol annibynnol yw Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh sydd wedi ei chofrestru i ddarparu addysg ar gyfer hyd at 12 o blant rhwng 11 ac 18 oed. Mae pob un o’r disgyblion yn wrywod ac yng ngofal eu hawdurdod lleol. Mae gan bob un ohonynt anghenion addysgol arbennig, yn enwedig anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anghenion dysgu ychwanegol.

Nod yr ysgol yw darparu ystod o brofiadau sy’n datblygu’r medrau sydd eu hangen ar ddisgyblion ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith, gyda phwyslais cryf ar ddatblygu unigolion cyflawn sy’n hyderus a chyfrifol.

**Strategaeth**

Nod yr ysgol oedd datblygu unigolion er mwyn iddynt allu dechrau bywyd fel oedolyn yn llwyddiannus trwy gwricwlwm oriau deffro sy'n pontio'r ysgol a gofal preswyl.

**Gweithredu**

Yn Ebrill 2013, cyflwynwyd cwricwlwm newydd. Rhoddodd hyn ddewis gwell o bynciau a chyrsiau i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu'r cwricwlwm a gynigir i ddisgyblion. Er enghraifft, trwy astudiaethau dinasyddiaeth, mae disgyblion yn trefnu gweithgareddau ac yn codi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Maent yn cwblhau gwaith gwirfoddol hefyd. Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn ychwanegu at ddealltwriaeth disgyblion o werth ymglymiad cymunedol.

Mae staff gofal preswyl yn cyflwyno rhaglen annibynnol sy'n helpu disgyblion gyda medrau domestig a chadw tŷ. Yn ychwanegol, gwna'r ysgol ddefnydd da o therapyddion mewnol a therapydd lleferydd ac iaith ymgynghorol i wella'r cwricwlwm trwy weithgareddau unigol a grŵp. Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol a chyfathrebu, medrau gwneud penderfyniadau, meithrin perthynas ac iechyd personol disgyblion.

Mae athrawon, therapyddion a staff gofal preswyl yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion mewn datblygiad medrau personol, cyfathrebu a medrau cymdeithasol. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn dilyn cyrsiau galwedigaethol mewn colegau, yn mynychu rhaglenni profiad gwaith ac yn cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol yn y gymuned leol.

Caiff yr holl ddisgyblion gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a medrau hanfodol i gynorthwyo eu cyfnod pontio o'r ysgol i fyw â chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys diogelwch personol, ymwybyddiaeth gymdeithasol a diwylliannol, maeth, cogiinio a chyllidebu personol.

**Deilliannau**

- Mae disgyblion wedi cynyddu lefelau annibyniaeth ac yn datblygu medrau sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith ac ar gyfer y cyfnod pontio o'r ysgol i fyw â chymorth.
- Mae pedwar deg y cant o ddisgyblion sydd wedi gadael Amberleigh wedi symud i fyw yn annibynnol neu fyw â chymorth.
- Dychwelodd pedwar deg y cant o ddisgyblion i ofal maeth neu ofal eu rhieni.
- Arhosodd dau ddeg y cant o ddisgyblion yng ngofal cartrefi plant.
- Mae medrau personol, cymdeithasol a chyfathrebu disgyblion wedi gwella.
- Caiff adroddiadau cadarnhaol eu darparu gan golegau a lleoliadau gwaith. Mae hyn yn dangos ymroddiad y disgyblion i lwyddo. Mae'n magu eu hyder mewn rhyngweithio o fewn y gymuned ehangach.

35 Mae lleiafrif o ysgolion wedi sefydlu clybiau ar ôl yr ysgol yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae llawer o'r clybiau hyn yn galluogi disgyblion i elwa ar gael cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Yn ychwanegol, gallant

ddefnyddio ystod o offer TGCh nad yw ar gael yn eu lleoliad gofal maeth. Yn aml, ceir cyfleoedd i ddatblygu medrau ymarferol mewn coginio hefyd, a thrafod materion neu bryderon gyda staff. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn clybiau ar ôl yr ysgol yn rhy gyfyngedig ledled Cymru. Mewn lleiafrif o ysgolion, gall anawsterau cludiant atal ymgysylltu.

36 Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Maerdy yn Rhondda Cynon Taf wedi defnyddio ei Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i ddarparu clwb ar ôl yr ysgol yn benodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Astudiaeth achos 4: Ysgol Gynradd Gymunedol Maerdy – darpariaeth ar ôl yr ysgol i ddatblygu medrau disgyblion**

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Maerdy yn darparu ar gyfer plant rhwng tair ac un ar ddeg oed ac mae'n cynnwys dosbarth arbenigol awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Mae 244 o blant mewn addysg amser llawn ar hyn o bryd. Mae pedwar deg dau y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cydnabyddir bod yr ardal yn un o'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac fe geir lefelau uchel o ddiweithdra.

**Strategaeth**

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu sydd yng ngofal mamgu-od a thadcu-od.

Mae diwylliant yr ysgol yn sicrhau bod yr ysgol yn gwrando ar ddisgyblion, a bod oedolion yn yr ysgol yn bobl hawdd mynd atynt.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn aml yn gymhleth. Bron ym mhob achos, mae angen cymorth emosiynol ar y plant, fel y gwelir wrth arsylwi eu hymddygiad mewn dosbarthiadau, a'r tu allan, yn eu gallu i gymdeithasu ag eraill a thrwy asesiad lles yr ysgol. Mae'r asesiad hwn yn darparu gwybodaeth am les emosiynol y plentyn gartref ac yn yr ysgol ac mae hefyd yn dilyn cysylltiadau cymdeithasol a rhyngweithiadau'r plentyn yn ei ddosbarth.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn dda. Mae cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol (ELSA) yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a chanddynt anawsterau emosiynol yn yr ysgol. Fodd bynnag, dangosodd asesiadau lles nad oedd plant sy'n derbyn gofal mor hapus â phlant eraill yn yr ysgol o hyd.

**Gweithredu**

Penderfynodd yr ysgol wneud yn siŵr fod oedolyn arwyddocaol y gallai plant sy'n derbyn gofal fynd ato/ati yn yr ysgol. Gallai hyn fod trwy gyfarfod a chyfarch yn y bore neu fynd i sesiwn galw i mewn yn ystod amser chwarae, amser cinio neu ar ôl yr ysgol. Roedd yr ysgol yn gweddu personoliaethau a diddordebau'r plant hyn i'r oedolion mwyaf addas yn ofalus. Staff cymorth oedd yr oedolion hyn bron bob tro.

Penderfynodd yr ysgol gynnal clwb ar ôl yr ysgol ar gyfer plant a oedd yn derbyn gofal hefyd. Caiff y clwb hwn ei ariannu gan y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Egwyddor y clwb oedd y byddai plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwahodd i aros ar ôl yr ysgol am awr bedair gwaith yr wythnos. Mae'r sesiynau bob amser yn dechrau â rhyw fath o fyrbryd, y mae disgyblion yn helpu i'w paratoi. Caiff plant eu hannog i drafod sut mae eu diwrnod wedi mynd hefyd. Am un diwrnod yr wythnos, caiff plant hŷn eu rhoi gyda disgyblion iau i'w helpu i ddatblygu eu gallu i ofalu am ddisgyblion eraill, a'u meithrin. Maent yn gwrando ar y plant iau yn darllen neu'n chwarae gêm gyda nhw. Disgwylir i bob un o'r plant wneud gweithgaredd llythrennedd neu rifedd yn ystod y sesiwn. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys darllen dan arweiniad neu ddefnyddio rhaglen fathemateg gyfrifiadurol.

Arfarnodd yr ysgol effaith y ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Roedd y lles emosiynol yn gwella, ac roedd cysylltiadau â gofalwyr yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, cyfyngedig oedd effaith y clwb ar safonau mewn llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, cafwyd gwared ar elfen llythrennedd a rhifedd y sesiynau, ac erbyn hyn, mae'r ysgol yn darparu sesiynau ar ôl yr ysgol ar wahân i ddatblygu'r medrau hyn.

Mae ffocws y clwb ar ôl yr ysgol bellach ar ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Ceir strwythurau clir a gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda. Ar ddechrau pob sesiwn clwb, mae disgyblion yn gwrando ar safbwyntiau disgyblion eraill. Cânt eu cynorthwyo i fyfyrio ar eu diwrnod yn yr ysgol ac egluro hyn wrth ddisgyblion eraill. Mae disgyblion yn gwrando'n astud ac yn dysgu cymryd eu tro a rhannu sylw oedolion. Caiff sesiynau coginio eu seilio ar thema bwyta'n iach. Yn ystod gweithgareddau gemau, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau cyfathrebu ymhellach.

Caiff disgyblion hŷn eu hannog o hyd i gynorthwyo disgyblion iau. Gwahoddir gofalwyr a mamgu-od a thadcu-od i ymuno â sesiynau, a disgwylir y gallai ambell un ohonynt fod eisiau bod yn wirfoddolwr amser llawn ar gyfer y grŵp. Erbyn hyn, caiff gofalwyr eu hannog i gyrraedd yn gynnar i nôl y disgyblion a defnyddio'r ganolfan sydd wedi'i dynodi'n arbennig ar gyfer rhieni a gofalwyr er mwyn iddynt allu sgwrsio am eu hanawsterau a'u cryfderau tra byddant yn cael paned o de.

**Deilliannau**

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau i fynd i'r clwb wythnos ar ôl wythnos, a dengys holiaduron eu bod yn mwynhau'r gweithgareddau.
- Mae'r rhan fwyaf o holiaduron lles wedi dangos gwelliant mewn lles ers i'r clwb ddechrau.
- Mae hanner y plant ar y trywydd iawn i gyflawni neu ragori ar y deilliannau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol wedi nodi bod tua chwarter y disgyblion yn fwy abl a thalentog mewn Saesneg a mathemateg.
- Cafodd chwarter o'r plant sy'n derbyn gofal eu derbyn i'r ysgol lai na thymor yn ôl. Wrth iddynt gyrraedd yr ysgol, nid oeddent yn gweithio ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae'r disgyblion hyn eisoes wedi dangos cynnydd nodedig yn eu hagweddau at ddysgu, a disgwylir iddynt gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran cyn diwedd y cyfnod allweddol.

- Mae llawer o'r plant sy'n byw â'u mamgu-od a thadcu-od ar y trywydd iawn i gyflawni'r deilliant disgwyliedig ar gyfer eu hoedran.
- Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion anawsterau cyfathrebu difrifol ond maent yn gwneud cynnydd.
- Mae ymddygiadau gwrthgymdeithasol a oedd yn bresennol yn y gorffennol wedi lleihau'n sylweddol.
- Mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn uwch nag ydyw ar gyfer gweddill yr ysgol.

37 Mewn llawer o ysgolion, ceir systemau cymorth bugeiliol cryf iawn. Pan fydd gan blant sy'n derbyn gofal rywun y gallant siarad ag ef/â hi, maent yn cysylltu hyn â chyfrannu at wella eu hunan-barch a'u deilliannau addysgol, (Voices from Care, 2015). Mae'r lefel hon o gymorth yn galluogi plant sy'n derbyn gofal i feithrin perthynas ag oedolyn sydd â diddordeb ynddynt fel unigolyn ac nid yn eu gallu i gyflawni'n addysgol yn unig. Yn aml iawn, yr aelodau hyn o staff yw'r bobl gyntaf y bydd plant sy'n derbyn gofal yn troi atynt pan fydd angen cyngor, cymorth neu gysur arnynt.

**Olrhain**

38 Mae gan yr holl ysgolion systemau olrhain cyffredinol effeithiol o ran monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddealltwriaeth dda o berfformiad y disgyblion hyn ar draws yr ysgol ac yn unigol. Mae'r systemau olrhain hyn yn hynod effeithiol pan fydd pob un o'r staff yn deall ac yn diweddaru gwybodaeth olrhain unigol yn rheolaidd.

39 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae gan yr uwch arweinydd gyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal (yr athro dynodedig) ddealltwriaeth ragorol o systemau olrhain data'r ysgol. Gallant ddehongli'r data a defnyddiant hwn yn dda i osod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Maent yn cydnabod bod angen arfarnu'r effaith a gaiff ymyriadau ar ddisgyblion, ac mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer gwella.

40 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ffurfiol yn adolygu data olrhain, ar lefel ysgol gyfan, grŵp ac unigolyn, bob tymor o leiaf. Yn ychwanegol, defnyddiant wybodaeth asesu i brofi cywirdeb eu data olrhain a gwneud diwygiadau i dargedau disgyblion unigol. Defnyddiant system goleuadau traffig neu system debyg i amlygu perfformiad presennol disgyblion yn erbyn cynnydd disgwyliedig. Mewn rhai ysgolion, caiff y wybodaeth hon am gynnydd ei chynllunio ochr yn ochr â thargedau yng nghynlluniau addysg personol (CAPau) neu gynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw llawer o ysgolion mor ymwybodol ag y mae angen iddynt fod o anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Mae'r drefn i asesu'r anghenion hyn, ac felly eu holrhain yn ffurfiol, yn wan ar y cyfan. Yn ychwanegol, ni chaiff y drefn i olrhain cynnydd disgyblion ar ymyriadau penodol ei chofnodi'n ddigon da mewn systemau olrhain ysgol gyfan.

41 Mae llawer o ysgolion yn olrhain cyrhaeddiad, presenoldeb a gwaharddiadau plant sy'n derbyn gofal yn dda. Defnyddiant ddata yn effeithiol i fireinio a gwella'r cwricwlwm a gynigir. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ystod o ddarpariaeth, er enghraifft canolfannau cymorth, grwpiau

anogaeth a darpariaeth i ffwrdd o safle’r ysgol, i atal disgyblion, gan gynnwys plant sy’n destun gofal, rhag ymddieithrio a bod mewn perygl o gael eu gwahardd. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, mae cyfraddau gwaharddiadau plant sy’n derbyn gofal yn cymharu’n ffafriol â chyfraddau gwaharddiadau disgyblion eraill. Mae lleiafrif o ysgolion wedi cynnal dadansoddiad o bresenoldeb plant sy’n derbyn gofal. Gall bron pob un o’r ysgolion hyn ddangos bod lefelau presenoldeb plant sy’n derbyn gofal yn uwch na lefelau presenoldeb eu cyfoedion. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn olrhain presenoldeb ac ymddygiad plant sy’n derbyn gofal yn ddigon agos.

42 Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn ymwybodol o’u targedau unigol ar gyfer gwella ar draws yr holl bynciau. Mae’r targedau hyn yn cyd-fynd yn dda â disgwyliadau uchel yr ysgolion ar y cyfan, a cheir arweiniad clir i gyd-fynd â nhw ar yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i’w cyflawni. Mewn rhai ysgolion, mae targedau disgyblion yn cynnwys lefel bresennol y gweithio, targed disgwyliedig a tharged her. Mae targedau her yn dangos y deilliannau disgwyliedig y mae ysgolion yn anelu atynt gyda chymorth ychwanegol. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi alinio targedau unigol mewn CAPau a CAUau. O ganlyniad, ceir ffocws clir ar flaenoriaethau gan osgoi dyblygu targedau. Fodd bynnag, nid yw targedau mewn CAPau a CAUau yn cyd-fynd â’i gilydd cystal ag y gallent, ar y cyfan.

**Mentora a chymorth ar gyfer lles emosiynol**

43 Mae pob ysgol yr ymwelwyd â hi yn cydnabod gwerth mentora i blant sy’n derbyn gofal. Mae gan lawer o ysgolion ddull mentora sy’n amrywio o sesiynau tiwtorial gydag athrawon i drafodaethau amserlenedig gydag aelodau o uwch dîm rheoli’r ysgol.

44 Mae trafodaethau â’r tiwtor dosbarth, fel gweithgaredd wedi’i gynllunio, yn digwydd mewn lleiafrif o ysgolion. Gallai’r trafodaethau hyn ddigwydd yn ystod cyfnod tiwtor dosbarth lle bydd yr athro’n cyfarfod â’r grŵp dosbarth ac mae wedi canolbwyntio trafodaethau ar brofiadau dysgu disgyblion, eu dyheadau a’r hyn y mae angen iddyn nhw a’r ysgol ei wneud i wireddu uchelgeisiau’r disgyblion. Mewn rhai ysgolion, caiff y sesiynau hyn eu hamserlennu y tu allan i gyfnod cofrestru’r tiwtor dosbarth. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid dosbarth yn gwybod pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud yn yr ysgol a gallant weld data perfformiad. O ganlyniad, gallant deilwra eu trafodaethau gyda disgyblion am y cynnydd a wnânt ym mhob un o’r pynciau.

45 Mewn tua hanner yr ysgolion, gwneir defnydd da iawn o sesiynau cyfarfod a chyfarch dyddiol. Pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol, caiff disgyblion de a thost gydag aelod neilltuedig o staff. Defnyddia staff y cyfle hwn i ganolbwyntio ar yr hyn a aeth yn dda yn yr ysgol y diwrnod blaenorol ac ymateb i unrhyw faterion a allai fod wedi codi gartref. Mae hon yn nodwedd gyffredin yn yr ysgolion sy’n cynnal grwpiau anogaeth. Mae gan leiafrif o ysgolion gynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol (ELSA). Mae’r staff hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddeall a rheoli eu hemosiynau eu hunain tra byddant hefyd yn parchu teimladau’r rheiny o’u cwmpas hefyd.

46 Mae grwpiau anogaeth wedi cael eu sefydlu mewn lleiafrif o ysgolion. Pan fo grwpiau anogaeth yn bodoli, mae disgyblion yn ymgysylltu’n fwy cadarnhaol â staff a disgyblion eraill dros gyfnod. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn cydnabod pwysigrwydd deall anghenion emosiynol disgyblion.

47 Mae llawer o ysgolion yn hynod hyblyg wrth addasu'r cwricwlwm a'r cymorth i blant sy'n derbyn gofal mewn cyfnodau o anhawster personol. Er enghraifft, mae'r cwricwlwm bugeiliol yn y ganolfan cymorth astudio yn Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart yn canolbwyntio ar feithrin a sefydlu perthynas â disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda disgyblion i nodi a mynd i'r afael â phroblemau rheoli dicter, ac mae'n helpu disgyblion i ymateb yn briodol. Mae'r ysgol yn helpu i fagu hyder disgyblion i ail-ymgysylltu mewn gwersi prif ffrwd. Mae staff yn y ganolfan cymorth astudio yn hynod effeithiol o ran gweithio gyda staff prif ffrwd ac yn rhoi gwybodaeth berthnasol iddynt am ddisgyblion.

48 Mae Ysgol Gynradd Tredelerch yng Nghaerdydd yn defnyddio system sy'n nodi grwpiau cyfeillgarwch yn y dosbarth a'r ysgol. Defnyddia staff y wybodaeth hon yn sensitif i gefnogi datblygiad cyfeillgarwch mewn dosbarthiadau ac yn yr ysgol. Yn sgil hyn, mae disgyblion, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, yn cael eu paru â disgyblion eraill i ddatblygu cyfeillgarwch. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgynefino yn yr ysgol yn gyflymach, ac maent yn llai pryderus.

49 Defnyddia lleiafrif o ysgolion ystod o offer asesu i gael amcan o fedrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Defnyddir canlyniadau asesiadau cychwynnol yn sensitif i nodi anghenion a darparu cymorth mentora.

50 Mae a wnelo nifer o weithwyr proffesiynol â bywydau plant sy'n derbyn gofal, ac mae pob un o'r gweithwyr proffesiynol yn gyfrifol am agwedd wahanol ar fywyd y plentyn. Mae ychydig iawn o ysgolion yn dyrannu anogwyr dysgu[1] i blant sy'n derbyn gofal ar gyfer cyfnod yn yr ysgol. Mae anogwyr dysgu a disgyblion yn dod i adnabod ei gilydd yn dda iawn. Yn gyffredinol, daw'r oedolion hyn yn unigolyn canolog ar gyfer y disgybl, ei ofalwr maeth a'i weithiwr cymdeithasol. Maent yn gweithredu fel eiriolwyr ar gyfer disgyblion ac yn darparu cymorth, cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar ystod gynhwysfawr o faterion sy'n effeithio ar y disgybl. Yn yr ysgolion hyn, caiff yr holl ddisgyblion sy'n derbyn gofal sesiynau amserlenedig wythnosol gyda'u hanogwr dysgu.

51 Mae anogwyr dysgu yn monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal yn dda ac yn gofyn am eu barn mewn perthynas â'u gwaith ysgol, yr ysgol yn gyffredinol ac unrhyw faterion eraill a allai fod yn effeithio arnynt. Gallai'r sesiynau hyn gynnwys trafodaethau ynghylch cyswllt gyda rhieni a phryderon sydd gan ddisgyblion ynghylch diogelwch eu lleoliad gofal maeth presennol.

52 Ni ddylid tanamcangyfrif y cysondeb a ddarperir gan yr anogwr dysgu neu oedolyn arwyddocaol arall, fel athro dosbarth, aelod o staff cymorth. Fel y nodwyd gan Voices from Care (2015)

> roedd pobl ifanc… a gafodd gymorth â'u haddysg, boed hynny'n rhywun mewn lleoliad addysgol neu'r tu allan, yn teimlo'n hapusach, yn fwy hyderus ac yn credu eu bod yn llwyddo mwy… (tud. 5)

[1] Yn yr adroddiad hwn, mae'r term anogwr dysgu yn cynnwys staff sydd â rôl benodol mewn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal.

53 Mewn rhai ysgolion, cynhelir sesiynau mentora ffurfiol ar gyfer disgyblion gydag aelodau o’r uwch dîm rheoli. Yn gyffredinol, dyma ble nodwyd anogaeth a chymorth ychwanegol ar ddisgyblion hŷn yn dilyn arholiadau cyhoeddus. Mae uwch staff yn cyfarfod â disgyblion, er enghraifft, bob pythefnos, i drafod eu perfformiad academaidd presennol. Maent yn cynghori disgyblion ar agweddau ar eu medrau gwaith, trefnu a chynllunio y mae angen eu gwella. Mae’r dull hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu gwydnwch a’u synnwyr o gyfrifoldeb. Mae gan yr ysgolion hyn ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny sy’n derbyn gofal.

54 Mae gan Ysgol Gyfun Brynteg ym Mhen-y-bont ar Ogwr ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Yn yr astudiaeth achos hon, mae’r ysgol yn dangos y modd y mae wedi defnyddio’i system olrhain i nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Gyfun Brynteg – defnyddio olrhain yn effeithiol i fonitro cynnydd a gwella deilliannau**

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Gyfun Brynteg ac mae’n un o’r ysgolion uwchradd mwyaf yng Nghymru, gyda 1,603 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 434 yn y chweched dosbarth. Mae 30 o blant yn derbyn gofal ar hyn o bryd. Mae mwyafrif y rhain yng nghyfnod allweddol 3, ychydig dros chwarter ohonynt yng nghyfnod allweddol 4 a rhai yn y chweched dosbarth. Mae hanner y plant sy’n derbyn gofal ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth**

Nododd yr ysgol fod angen gwneud defnydd systematig o olrhain, ar lefel ysgol gyfan, i nodi a rhoi cymorth i ddisgyblion i wella’u deilliannau.

**Gweithredu**

Mae’r ysgol wedi cynllunio system olrhain a ddefnyddir yn effeithiol gan athrawon i bennu’r cynnydd a wna disgyblion, gan gynnwys plant sy’n derbyn gofal.

Caiff plant sy’n derbyn gofal eu nodi’n glir ar yr holl daflenni marcio. Mae’r nodwedd hon yn galluogi athrawon a rheolwyr i olrhain cynnydd pob disgybl yn hawdd.

Mae’r ysgol yn defnyddio data perfformiad gwirioneddol a rhagweledig i olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon pwnc yn asesu cynnydd disgyblion yn barhaus ac mae’r ysgol yn arfarnu cynnydd yn ffurfiol ar bedwar achlysur trwy gydol y flwyddyn. Defnyddir system codau lliw i ddadansoddi’r data. Mae’r system hon yn galluogi’r ysgolion i roi pecynnau cymorth priodol ar waith ar gyfer yr holl blant, gan gynnwys y rheiny sy’n derbyn gofal. Mae enghreifftiau o gymorth ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn cynnwys:

Pontio:

- Mae swyddog cymorth dysgu clwstwr yn gweithio gydag ysgolion eraill i nodi

grwpiau sy'n agored, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Gwnânt gyfeiriadau at ddarpariaeth anogaeth ac maent yn cysylltu'n agos â'r staff eraill i sicrhau bod anghenion dysgu unigol yn cael eu bodloni.
- Mae rhaglen 'Help Llaw' ('Helping Hands') yn gwella'r broses bontio ymhellach. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymdopi â gofynion y broses bontio. Mae'r rhaglen yn defnyddio disgyblion hŷn sy'n derbyn gofal fel mentoriaid cyfoedion, gan felly feithrin perthynas a rhoi cyfrifoldeb i'r unigolion hyn.

Mentora:
- Cyfarfod ffurfiol rhwng disgyblion a'u tiwtoriaid dosbarth yw mentora tiwtoriaid dosbarth, sy'n digwydd deirgwaith y flwyddyn. Mae staff yn trafod gyda disgyblion y cynnydd y maent yn ei wneud, yn gosod targedau ar gyfer gwella ac yn amlygu unrhyw anghenion cymorth ychwanegol.
- Ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11, mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen 'mentora diderfyn'. Mae'r rhaglen yn targedu disgyblion a allai gyflawni graddau C gyda chymorth ychwanegol. Mae llawer o'r plant sy'n derbyn gofal yn elwa ar y mentora hwn. Neilltuir hyd at ddau ddisgybl i aelodau o'r tîm arweinyddiaeth, yn ogystal â staff gwirfoddol. Maent yn cyfarfod â disgyblion ddwywaith y mis ac yn defnyddio system olrhain yr ysgol, yn ogystal â thrafodaethau ag athrawon unigol, i fentora disgyblion.
- Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn gweithio gyda chydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol i ddarparu mentoriaid allanol ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n derbyn gofal. Mae'r mentor yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd ac yn cynllunio rhaglenni a chymorth unigoledig. Mae'r rhain yn cynnwys pecynnau adolygu, pecynnau pwrpasol o wersi amserlenedig fel ffurf arall o gwricwlwm, strategaethau magu hyder, llwybrau gyrfaoedd a mynychu cyfarfodydd amddiffyn plant ac adolygu. Mae'r cymorth a ddarperir gan y mentoriaid hyn yn canolbwyntio ar les a deilliannau academaidd disgyblion.

Cymorth:
- Mae'r ysgol yn dynodi anogwr dysgu dynodedig ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal. Mae'r anogwr dysgu yn cyfarfod â disgyblion unwaith yr wythnos i fonitro eu cynnydd cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â'u cynnydd academaidd. Mae'r uwch swyddog cymorth yn darparu arweinyddiaeth eithriadol o dda i'r tîm o anogwyr dysgu.
- Mae'r ddarpariaeth anogaeth (Tŷ Seren) yn datblygu hunan-barch a pherthnasoedd cymdeithasol disgyblion yn dda. Mae staff sy'n cynnal y ddarpariaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o seicoleg ymlyniad a'i heffaith ar ymddygiad ac anghenion emosiynol disgyblion.
- Caiff gofalwyr plant sy'n derbyn gofal eu cynnwys yn y trafodaethau, gan sicrhau gweithio partneriaeth effeithiol tuag at ddeilliannau lefel uchel.

**Deilliannau**

Mae plant sy'n derbyn gofal yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd:

- Mae deilliannau yn nhrothwyau lefel 1 a lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4 yn dda iawn.
- Mae'r holl blant sy'n derbyn gofal yn ennill o leiaf tri chymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel 2.

- Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r holl ddisgyblion yn cyflawni lefel 5+ ym mhob un o'r pynciau craidd.
- Mewn profion cenedlaethol, mae plant sy'n derbyn gofal yn perfformio cystal â'u cyfoedion. Gwnaeth wyth deg wyth y cant o blant gynnydd disgwyliedig neu gynnydd gwell.
- Mae presenoldeb cyffredinol uwchlaw 95%.
- Mae ymddygiad plant sy'n derbyn gofal yn dda iawn. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae cyfradd gwaharddiadau cyfnod penodol plant sy'n derbyn gofal yn isel.
- Mae'r grŵp anogaeth yn defnyddio dull graddedig a graddol o ddatblygu annibyniaeth. Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn mynychu darpariaeth anogaeth pan fyddant yn dechrau ac fe gânt eu hintegreiddio'n raddol ym mhrif ffrwd yr ysgol yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

55 Yn gyffredinol, mae gan ysgolion arbennig gysylltiadau cryfach ag ystod o asiantaethau allanol nag ysgolion prif ffrwd. Mae hyn i'w ddisgwyl, o ystyried anghenion cymhleth y disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig. O ganlyniad, caiff yr holl blant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, gyfle da i fanteisio ar wasanaethau arbenigol. Mewn llawer o achosion, darperir y gwasanaethau hyn ar y safle, sy'n helpu i leihau'r angen i ddisgyblion golli'r ysgol i fynychu apwyntiadau.

56 Mae llawer o ysgolion yn ymgysylltu'n dda ag ystod o bartneriaid amlasiantaethol i'w helpu i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Defnyddir cyfarfodydd 'tîm o amgylch y teulu' neu gyfarfodydd plant yn effeithiol i nodi anghenion penodol a neilltuo cyfrifoldebau i bartneriaid.

57 Mae mwyafrif yr ysgolion yn cysylltu â sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu ystod o wasanaethau ychwanegol. O ganlyniad, mae'r ysgolion hyn yn darparu ystod ehangach o brofiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon a chyfle i fanteisio ar wasanaethau arbenigol fel cymorth ar gyfer cyffuriau ac alcohol.

58 Mae'r holl ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru yn darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer disgyblion, ac nid yw plant sy'n derbyn gofal yn eithriad. Yn ogystal â darparu cwnsela, mae rhai ysgolion yn cyflogi therapyddion i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal ar faterion sy'n benodol iddyn nhw. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn ei chael yn anodd cysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, a manteisio arnynt, pan fydd angen.

**Pontio a lleoliad addysg**

59 Mae rhai ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella cynllunio pontio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae Ysgol Gynradd Pen-y-bont yn gweithio'n dda gyda'i hysgol uwchradd leol, Ysgol Gyfun Brynteg, i sicrhau bod gan yr ysgol uwchradd ddealltwriaeth dda o anghenion y plentyn. Mae swyddogion pontio dynodedig yn cynllunio ymweliadau pontio yn sensitif ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn ogystal â'r gweithgareddau pontio ar gyfer yr holl ddisgyblion, mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau un i un, lle gall y disgybl gyfarfod â staff allweddol ac ymgyfarwyddo â dyluniad yr ysgol. Mae'r dulliau hyn yn cynorthwyo'n fawr o ran lleihau ofnau ynghylch symud i ysgol newydd.

60 Caiff bron pob un o'r ysgolion eu cynnwys mewn trafodaethau ynghylch lleoliadau addysgol disgyblion sy'n derbyn gofal yn eu hysgol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae lefel yr ymglymiad a'r wybodaeth sydd gan ysgolion am ddisgyblion cyn iddynt ymuno â'r ysgol yn rhy amrywiol. Yn Ysgol Y Gogarth, yng Nghonwy, mae'r pennaeth ar banel cymedroli'r awdurdod lleol. Mae hyn yn sicrhau bod cyfnod pontio didrafferth o un ysgol i un arall a bod yr ysgol sy'n derbyn yn cael gwybodaeth berthnasol cyn i blentyn symud i'r awdurdod lleol o ardal arall. O ganlyniad, gall yr ysgol gynllunio cyfnod pontio disgybl yn fwy effeithiol. Mae'r panel cymedroli hwn yn cydnabod yr effaith negyddol bosibl a gaiff symud sawl ysgol ar ddisgyblion. Mewn un enghraifft ddiweddar, mae'r ysgol wedi gweithio'n dda gyda'r awdurdod lleol i gynnal lleoliad presennol disgybl ac osgoi tarfu ar ei addysg.

## Datblygiad proffesiynol ar gyfer staff

61 Yn yr ysgolion arbennig yr ymwelwyd â nhw, yn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol fel ei gilydd, ceir datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff ar fodloni anghenion plant sy'n derbyn gofal. Mae llawer o ysgolion yn cynnal diweddariadau hyfforddi blynyddol ar gyfer staff ar grwpiau o ddysgwyr sy' agored i niwed. Defnyddir sesiynau o'r fath i amlinellu perfformiad grwpiau o ddysgwyr ac atgoffa staff am eu cyfrifoldebau am grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn defnyddio sesiynau hyfforddi'n ddigon da i godi ymwybyddiaeth staff am brofiadau bywyd, neu gefndiroedd y plant sy'n derbyn gofal.

62 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae staff sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer rolau penodol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o anghenion nodweddiadol plant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys anogwyr dysgu, staff cymorth arbenigol, cynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol (ELSA) ac ymarferwyr grwpiau anogaeth. Mae'r hyfforddiant a fynychir gan yr aelodau hyn o staff, sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau allanol yn gyffredinol, yn cynnwys testunau fel ymlyniad, agweddau ar ddatblygiad y plentyn, iechyd emosiynol a hyfforddi. Mae ychydig iawn o ysgolion wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer yr holl staff ar brofedigaeth, trawma a cholled.

63 Dyma a nodwyd gan yr holl bobl ifanc a gafodd eu cyfweld fel rhan o arolwg Voices from Care (2015):

> "…nid oedd athrawon yn yr ysgol yn deall sut beth yw derbyn gofal, a'r ffordd y mae derbyn gofal yn cael effaith uniongyrchol ar eu haddysg. Roedd llawer ohonynt yn teimlo mai prin oedd y ddealltwriaeth ynghylch sut a pham mae profiadau plant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sbarduno ymddygiad negyddol ... (tud. 2), byddai'n syniad da cael athrawon sy'n cael hyfforddiant ynglŷn â phroblemau a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal…" (tud. 11)

64 Mae rôl awdurdodau lleol a chydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal mewn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ysgol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae hyn yn amrywio o awdurdodau lleol sy'n cyfleu'r hyfforddiant y maent yn ei ddarparu yn glir i rai awdurdodau lleol sy'n ymateb i geisiadau unigol gan ysgolion yn unig. Mewn rhai awdurdodau, ceir rhaglenni ymsefydlu clir ar gyfer

athrawon dynodedig. Yn Ysgol Gymunedol Glynrhedynog yn Rhondda Cynon Taf, mae rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae staff wedi cael eu hyfforddi'n dda ar wahanol lefelau mewn materion fel cam-drin yn y cartref, hunan-niweidio ac ymddygiad rhywioledig.

65 Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn mynychu cyfarfodydd gyda chydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, ni chynhelir y cyfarfodydd hyn yn gyson ledled Cymru, ac nid yw'r cyfarfodydd yn canolbwyntio'n ddigonol ar anghenion datblygiad proffesiynol athrawon dynodedig neu staff ysgol eraill ar y cyfan. Mae hyn yn wendid sylweddol gan ei fod yn golygu nad yw pob un o'r staff mewn ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon clir o anghenion plant sy'n derbyn gofal.

66 Mewn ychydig iawn o ysgolion, nid oes disgrifiad swydd penodol gan yr athro dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad, maent yn ansicr ynglŷn â disgwyliadau'r rôl.

67 Ceir cysylltiadau effeithiol rhwng ysgolion a staff gwasanaethau plant. Mae'r naill a'r llall yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i nodi ac adolygu anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal ac yn cytuno ar dargedau disgyblion ar gyfer gwella mewn perthynas â gwaith ysgol. Fodd bynnag, mae'r rôl sydd gan staff o wasanaethau plant ag ysgolion, cyn i ddisgyblion ddechrau mewn ysgol, yn rhy amrywiol ar draws yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ac wedi ei chyfyngu i rannu gwybodaeth yn gyffredinol. Nid yw rôl gwasanaethau plant mewn cefnogi datblygiad proffesiynol staff ysgol, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r ffaith eu bod yn agored i niwed, wedi ei datblygu'n ddigonol.

## Llais y dysgwr

68 Mewn llawer o ysgolion, caiff plant sy'n derbyn gofal ystod eang o gyfleoedd i fynegi eu safbwyntiau am yr ysgol. Mae'r rhain yn nodweddiadol yn cynnwys bod yn aelodau o'r cyngor ysgol neu grwpiau cynrychioliadol eraill. Yn Ysgol Gyfun yr Esgob Gore yn Abertawe, ceir corff llywodraethol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys is-bwyllgor cymorth disgyblion, sy'n canolbwyntio ar ystod eang o faterion bugeiliol, gan gynnwys anghenion grwpiau sy'n agored i niwed.

69 Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnal digwyddiadau ymgynghori amserlenedig ar gyfer disgyblion ac athrawon. Defnyddir y rhain yn dda ac maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion drafod eu cynnydd â'u hathro dosbarth.

70 Mae bron pob ysgol yn defnyddio cyfarfodydd adolygu'r CAP i gael amcan o safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal, ac mae llawer o ysgolion yn teimlo bod y rhain yn rhoi cyfle priodol i fynegi eu safbwyntiau ar addysg a gosod targedau ar gyfer y dyfodol.

71 Yn dilyn adborth gan bobl ifanc, cydnabu Cyngor Dinas Caerdydd nad oedd fformat cynlluniau addysg personol yn arbennig o ddifyr nac yn addas ar gyfer plant. Adnewyddodd yr awdurdod lleol eu dogfennau a llunio cynlluniau addysg personol ar wahân, un ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac un ar gyfer disgyblion oedran uwchradd. (Gweler Atodiad 4.)

72 Mewn ychydig iawn o ysgolion, gofynnir yn eglur am safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal i lywio cynllun datblygu'r ysgol.

73 Fodd bynnag, mae trefniadau i wrando ar lais plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ledled Cymru. Ceir arferion rhagorol mewn lleiafrif o awdurdodau lle mae plant sy'n derbyn gofal yn gwneud cyflwyniadau i aelodau etholedig, yn cynhyrchu fideos hyfforddiant ar eu cyfer ac yn cyfarfod â nhw mewn lleoliadau ar draws yr awdurdod i rannu eu meddyliau a'u teimladau. Mae mwyafrif o awdurdodau lleol yn cynnal digwyddiadau dathlu sy'n hyrwyddo cyflawniadau eu plant sy'n derbyn gofal.

74 Mae llawer o awdurdodau lleol yn comisiynu sefydliad y trydydd sector i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer eu plant sy'n derbyn gofal. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r holl blant oedran uwchradd sy'n derbyn gofal yn cymryd rhan mewn arolwg blynyddol Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS).

75 Yn unigol, gall plant sy'n derbyn gofal fynegi eu safbwyntiau trwy gyfarfodydd a thrafodaethau ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o gael safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal, fel grŵp ar wahân, wedi ei datblygu'n dda.

76 Am yr wyth mlynedd ddiwethaf, mae Dinas a Sir Abertawe wedi cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal i fynegi'r safbwyntiau sy'n bwysig iddyn nhw.

**Astudiaeth achos 6: Dinas a Sir Abertawe – gwneud i safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal gyfrif**

**Cyd-destun**

Mae gan Ddinas a Sir Abertawe boblogaeth sylweddol sy'n derbyn gofal, ac mae dros 500 o bobl ifanc mewn gofal. Mae llawer o'r disgyblion hyn o oedran ysgol statudol. Mae llais yr unigolyn ifanc wedi bod yn ffactor pwysig wrth ffurfio'r Strategaeth Rianta Gorfforaethol yn unol â dyletswyddau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

**Strategaeth**

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu ystod o weithgareddau a digwyddiadau cyfranogi yn effeithiol i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal i gael llais a dylanwadu ar bolisïau'r sir.

Fe wnaeth digwyddiadau ymgynghori dros y blynyddoedd diwethaf amlygu'r ffaith fod angen i bobl ifanc gael llais effeithiol yn y sir. O ganlyniad, sefydlwyd grŵp cyfranogi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2008.

Mae'r grŵp hwn wedi cael ei ailenwi yn #Iamme gan y bobl ifanc, i bwysleisio eu hanghenion a'u lleisiau fel unigolion sydd â hawl i gael eu clywed. Nod y grŵp hwn yw sicrhau bod lleisiau plant sy'n derbyn gofal yn cael eu clywed ar y lefel uchaf yn Ninas a Sir Abertawe a bod polisïau a ddatblygwyd gan y cyngor yn adlewyrchu hyn.

Daw aelodau o grŵp #Iamme o amrywiaeth eang o gefndiroedd, lleoliadau a darpariaethau dysgu, ac maent yn cynnwys dysgwyr o ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, addysg heblaw yn yr ysgol a lleoliadau preswyl.

**Gweithredu**

Mae grŵp #Iamme yn cyfarfod bob wythnos ar ôl yr ysgol ac yn ystod pob gwyliau ysgol. Mae gweithgareddau wedi cynnwys digwyddiadau preswyl yn y gymuned yn gweithio ar y fenter bresennol ynghyd ag aelodau o'r Fforwm Rhianta Corfforaethol a gweithwyr proffesiynol fel y cânt eu gwahodd. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cynorthwyo'r bobl ifanc ym mhob un o'r digwyddiadau hyn.

Mae'r grŵp wedi cymryd rhan weithredol mewn llawer o ddigwyddiadau cyfranogi yn yr ardal leol ac yn genedlaethol. Mae uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Gweithio gyda Voices from Care yn yr ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru ar 'Godi uchelgeisiau, cyflawniadau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion'
- Gweithio gydag ymchwil Cascade gyda Phrifysgol Caerdydd ar effaith plant sy'n derbyn gofal mewn addysg, i lywio strategaeth addysg newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal
- Gweithio fel comisiynwyr ifanc gydag asiantaethau maethu a gofal preswyl annibynnol; datblygwyd hyn ymhellach yn Abertawe lle cynhyrchodd y grŵp eu DVD eu hunain, gan gysylltu â'r BBC, i amlygu pwysigrwydd comisiynu'r lleoliadau gofal mwyaf priodol i fodloni angen yn y ffordd orau; gwnaeth y grŵp gyflwyniad i'r cyngor llawn
- Cymryd rhan mewn trafodaethau gydag Aelodau'r Cynulliad yn y Senedd, i rannu eu safbwyntiau fel dysgwyr sy'n derbyn gofal
- Cynnal digwyddiad gwobrwyo blynyddol er 2009, lle mae dros 250 o ddysgwyr sy'n derbyn gofal wedi cael eu cydnabod yn flynyddol am eu cyflawniadau mewn addysg a meysydd eraill

Yn fwyaf diweddar, cynhyrchodd #Iamme ffilm lle maent yn rhannu eu profiadau a'u safbwyntiau ar eu lleoliadau, eu haddysg, eu huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol, ynghyd â phroblemau roeddent yn eu hwynebu wrth fod mewn gofal. Yn nangosiad cyntaf y ffilm, fe wnaeth aelodau o #Iamme gynnal perfformiadau o ganu, barddoniaeth a dawns i'r gynulleidfa a wahoddwyd, ac roedd pob un o'r perfformiadau hyn yn pwysleisio'r problemau y maent yn eu profi, eu huchelgeisiau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Deilliannau**

- Mae cynnydd mawr wedi bod yn hunanhyder pobl ifanc, gan alluogi iddynt gael trafodaethau effeithiol ag ystod o weithwyr proffesiynol, gyda dysgwyr yn arwain gweithdai ac yn cadeirio eu cyfarfodydd adolygu eu hunain.
- Mae digwyddiadau a'r ffilm wedi ysbrydoli plant eraill sy'n derbyn gofal.
- Mae gweithwyr proffesiynol wedi datblygu dealltwriaeth well o'r plant a'r problemau y maent yn eu hwynebu.
- Mae cynnydd wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gyfleoedd i gyflawni yn yr ysgol a'r tu allan, gan annog uchelgais.
- Mae plant sy'n derbyn gofal yn cyfrannu eu safbwyntiau mewn datblygu fformat newydd y Cynllun Addysg Personol.
- Mae cynnal digwyddiadau mewn ysgolion a phrifysgolion wedi codi dyheadau plant sy'n derbyn gofal.

- Mae'r cyfleoedd hyn wedi galluogi ystod o ddysgwyr o bob gallu i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.

**Partneriaethau gyda rhieni a gofalwyr**

77 Mae bron pob ysgol yn meithrin perthnasoedd effeithiol gyda gofalwyr maeth. Mae'r ysgolion hynny sy'n llwyddiannus wrth weithio gyda gofalwyr maeth yn cymryd amser i feithrin perthnasoedd. Ceir cyfathrebu clir rhwng yr ysgol a'r gofalwyr maeth ac maent yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd. Mewn lleiafrif o ysgolion, neilltuir anogwr dysgu i weithwyr maeth. Dros gyfnod, mae'r anogwr dysgu yn dod i adnabod y disgybl yn dda ac yn dod yn oedolyn arwyddocaol ar gyfer y disgybl a'r gofalwr maeth. O ganlyniad, gallant gael sgwrs ystyrlon gyda'r gofalwr maeth ac maent yn ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau.

78 Mae ychydig iawn o ysgolion wedi penodi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd. Eu rôl yw cysylltu â theuluoedd a darparu cymorth rhagweithiol uniongyrchol i ofalwyr maeth. Gallai hyn gynnwys trefnu ymweliadau â'r ysgol a hwyluso hyfforddiant pwrpasol, er enghraifft mewn deall ymddygiad eu plentyn.

79 Mae ychydig iawn o ysgolion yn gwahodd gofalwyr maeth i sesiynau 'dod i'ch adnabod' anffurfiol. Cyflwynir gofalwyr maeth i staff ysgol perthnasol ac eir â nhw ar daith o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys ymweld â grwpiau anogaeth neu ardaloedd eraill o'r ysgol sy'n darparu lefel fanylach o gymorth. Defnyddia ysgolion y cyfleoedd hyn yn dda i roi gwybod i ofalwyr maeth am y cwricwlwm a threfniadau ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad.

80 Mae lleiafrif o ysgolion yn cofnodi safbwyntiau gofalwyr maeth yn ffurfiol, ac mewn ychydig iawn o ysgolion, mae gofalwyr maeth wedi cyfrannu at arfarniadau ffurfiol o drefniadau pontio ar gyfer disgyblion ac agweddau ar gymorth arbenigol a gaiff y disgyblion, fel grwpiau anogaeth. Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn defnyddio'r adborth hwn yn ddigon da i fireinio'u dulliau, naill ai yn yr ysgol neu wrth rannu ei harfer ag eraill.

81 Mae Ysgol Gynradd Colcot ym Mro Morgannwg wedi cryfhau'r cysylltiadau sydd ganddi â gofalwyr maeth. Mae gofalwyr maeth yn ymweld â gwersi ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda'u plant. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth well o'r gwaith y mae plant yn ei wneud yn yr ysgol, a sut i'w cynorthwyo gartref.

**Astudiaeth achos 7: Ysgol Gynradd Colcot – gwaith targedig gyda gofalwyr maeth**

**Cyd-destun**

Mae 320 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Colcot yn y Barri. Mae pedwar deg wyth y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae tua 3% o boblogaeth yr ysgol yn blant sy'n derbyn gofal. Mae llawer ohonynt yn derbyn gofal gan berthnasau neu ffrindiau teuluol.

Nid yw’r ysgol yn ystyried bod yn ofalwr yn rhwystr ac fe geir llawer o gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ystyrlon. Mae gan yr ysgol ethos teuluol a chymunedol cynhwysol cryf.

**Strategaeth**

Nod yr ysgol oedd datblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a gofalwyr maeth.

**Gweithredu**

Mae gwaith yr ysgol wedi ei seilio ar egwyddorion seicolegol sy’n helpu i ddatblygu medrau meddwl a systemau credoau gofalwyr a rhieni.

Ceir cysylltiadau sefydledig gyda thimau Cymunedau yn Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae’r ysgol yn annog rhieni a gofalwyr i ymuno â’r ‘tîm rhoi teuluoedd yn gyntaf’ ac yn cymryd rhan mewn rhaglen amrywiol.

Mae’r ysgol yn targedu gofalwyr i fynychu sesiynau teuluol yn yr ysgol. Mae gweithgareddau’n amrywio o ddatblygu medrau rhianta i ofalwyr yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth gyda’r disgyblion yn well i ddeall yr hyn y maent yn ei ddysgu a’u cynorthwyo yn y gweithgareddau hyn. Mae’r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ofalwyr gymryd rhan yn addysg y plentyn a theimlo’n rhan o’r ysgol.

Mae’r ysgol yn dathlu llwyddiannau’r gwahanol brosiectau gyda’r gofalwyr.

**Deilliannau**

- Mae plant yn ymateb yn dda i gael eu gofalwyr yn yr ysgol. Mae’r profiadau hyn yn gwella eu hunan-barch a’u hunanhyder.
- Caiff gofalwyr a rhieni eu cynnwys yn nysgu’r plant y maent yn gofalu amdanynt. O ganlyniad, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth well o’r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.
- Mae hyder gofalwyr i ymgysylltu â’r ysgol a’r berthynas sydd ganddynt â staff wedi gwella. O ganlyniad, mae gofalwyr yn aelodau gweithredol o’r gymdeithas rhieni ac athrawon (CRhA) a mentrau mynediad fel yr undeb credyd a’r cwmni bwyd cydweithredol.
- Mae gofalwyr yn fwy hyderus i gyfrannu mewn cyfarfodydd amlasiantaethol. Mae hyn wedi arwain at sgwrs well a mwy agored am addysg a gofal y plentyn. O ganlyniad, mae gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn fwy mewn adolygu cynnydd a gosod targedau yn CAPau plant.
- Mae gofalwyr yn fwy sicr wrth ofalu am y plant oherwydd y cymorth a gânt gan yr ysgol. Dywedant fod y plant yn hapusach gartref.

## Rôl llywodraethwyr

82 Mae gan gyrff llywodraethol a llywodraethwyr dynodedig ar gyfer plant sy’n derbyn gofal rôl allweddol i roi her addas i benaethiaid. Fodd bynnag, mae eu heffeithiolrwydd yn y rôl hon yn amrywio’n sylweddol ledled Cymru.

83 Mewn tua hanner yr ysgolion, rhoddir adroddiadau clir gan benaethiaid i lywodraethwyr. Mae’r adroddiadau hyn yn canolbwyntio’n dda ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac yn cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb ac ymddygiad ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Er enghraifft, mae diweddariadau gan staff therapi a gofal yn cyd-fynd ag adroddiad y pennaeth yn Ysgol Therapiwtig Breswyl Amberleigh. Caiff yr adroddiadau hyn eu defnyddio’n dda gan gyfarwyddwyr y cwmni i gael dealltwriaeth well o anghenion y disgyblion, y ddarpariaeth a gynigir a’r camau y mae angen eu cymryd.

84 Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw adroddiadau a ddarperir gan y pennaeth i’r corff llywodraethol yn rhoi darlun digon clir o gyraeddiadau a chyflawniadau plant sy’n derbyn gofal. O ganlyniad, nid yw llywodraethwyr yn herio’n ddigon trylwyr. Mewn rhai ysgolion, mae llywodraethwyr yn ansicr ynglŷn â’u cyfrifoldebau am blant sy’n derbyn gofal ac nid yw’r llywodraethwr dynodedig yn adrodd wrth y corff llywodraethol llawn.

85 Mae lleiafrif o ysgolion yn elwa ar yr ymrwymiad personol, profiad ehangach a gwybodaeth a ddaw y llywodraethwyr â nhw i’w rôl. Mae enghreifftiau o hyn yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys llywodraethwyr sydd hefyd yn aelod o bwyllgor craffu ar addysg y Cyngor, gofalwr maeth profiadol ac aelod o’r panel rhianta corfforaethol. Yn yr ysgolion hyn, mae’r llywodraethwr dynodedig ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac aelodau eraill o’r corff llywodraethol yn hynod ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Maent yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol i’r uwch dîm arweinyddiaeth yn effeithiol.

86 Mewn ychydig dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid oes gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddigon da o’r problemau sy’n effeithio ar blant sy’n derbyn gofal. Mae hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr mewn perthynas â dysgwyr sy’n agored i niwed wedi ei gyfyngu i amddiffyn a diogelu plant ar y cyfan.

## Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal

87 Mae bron pob un o’r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o’r adroddiad hwn wedi defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn dda i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal.

88 Hyd at fis Ebrill 2015, roedd elfen y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn cael ei dyrannu i ysgolion. Roedd gan yr awdurdod lleol rôl ganolog mewn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio yn unol â thelerau ac amodau’r grant.

89 Roedd llawer o ysgolion yn glir ynglŷn â sut y dylid defnyddio’r grant. Roedd eu hawdurdodau lleol wedi darparu crynodeb llawn iddynt. Roedd yr holl ysgolion yn gallu dangos sut roeddent wedi defnyddio’r grant yn benodol i fod o fudd i blant sy’n derbyn gofal.

90 Ceir llawer o enghreifftiau lle mae ysgolion wedi defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i fodloni anghenion academaidd ac emosiynol plant sy'n derbyn gofal yn well. Roedd hyn yn aml yn cael ei wneud trwy staff cymorth ychwanegol, gwersi ychwanegol, a chyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi, defnyddio offer arbenigol ac adnoddau eraill. Roedd yr ysgolion hyn yn defnyddio'r grant yn dda ac ychwanegodd y mwyafrif ohonynt at y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda grantiau eraill neu gyllideb graidd yr ysgol. Bron ym mhob achos, roedd hyn yn rhoi cyfle gwell i blant elwa ar y cwricwlwm, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi, ac mewn llawer o achosion, roedd yn arwain at ddeilliannau gwell ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

91 Mae rhai ysgolion wedi defnyddio cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i ddarparu offer ac adnoddau penodol ar gyfer disgyblion. Prynodd un ysgol beiriant gwnïo i'w ddefnyddio gan ddisgybl a oedd yn dilyn cwrs TGAU mewn tecstilau. Prynodd ysgolion eraill offer cyfrifiadurol lle nad oedd hyn ar gael trwy'r lleoliad gofal maeth. Mae'r ysgolion hyn yn cynllunio'n dda ar gyfer defnyddio'r grant a gallant ddangos yr effaith ar safonau disgyblion.

92 Mewn rhai ysgolion, defnyddiwyd y grant i dalu am wersi preifat ar gyfer disgyblion, yn enwedig disgyblion hŷn sy'n astudio ar gyfer arholiadau allanol. Yn ychwanegol, defnyddiwyd y grant i ariannu gweithgareddau preswyl a diwylliannol yn rhannol, gan gynnwys teithiau ysgol dramor. Mae'r dulliau hyn yn helpu i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys mewn profiadau sydd ar gael i ddisgyblion eraill.

93 Ychydig iawn o ysgolion sy'n defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu hyfforddiant ysgol gyfan ar gyfer staff. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn ymlyniad, ymwybyddiaeth ofalgar a modelau hyfforddi effeithiol.

94 Mae Ysgol Gyfun Brynteg wedi defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol iawn. Defnyddia'r ysgol gyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol eraill a gofalwyr maeth i nodi sut y gellir defnyddio'r grant yn y ffordd orau i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal.

**Astudiaeth achos 8: Ysgol Gyfun Brynteg – defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal[2]**

**Cyd-destun**

Ysgol gyfun gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Brynteg ac mae'n un o'r ysgolion uwchradd mwyaf yng Nghymru, gyda 1,603 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 434 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Ar hyn o bryd, mae 30 o blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r rhain yng nghyfnod allweddol 3, ac ychydig dros chwarter ohonynt yng nghyfnod allweddol 4 a'r gweddill yn y chweched dosbarth. Mae hanner y plant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig.

[2] Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu'r defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion cyn i'r grant gael ei weinyddu gan y consortiwm rhanbarthol.

Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei holl ddisgyblion. Mae lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol yr holl ddisgyblion yn ganolog i’r ysgol. Mae’n deall mai dim ond pan fydd disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd y byddant yn dysgu a llwyddo.

**Strategaeth**

Nod yr ysgol yw defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

**Gweithredu**

Mae’r ysgol wedi defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal i ddarparu cymorth ac adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion, i ehangu eu profiadau diwylliannol a datblygu dulliau ysgol gyfan i weithio gyda gofalwyr maeth. Caiff penderfyniadau ar sut i ddefnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn unigol eu gwneud ar y cyd â disgyblion, eu gofalwyr maeth ac unrhyw geisiadau gan bartneriaid proffesiynol. Rhoddir ystyriaeth ofalus i’r modd y bydd y grant yn gwella lles cymdeithasol, emosiynol neu gorfforol disgyblion a sicrhau eu bod yn cadw’n iach a diogel ac yn cymryd rhan mor lawn ag y bo modd ym mywyd yr ysgol.

Darparu cymorth ychwanegol:

- Mae llawer o ddisgyblion wedi cael gliniaduron, sy’n galluogi iddynt fynd at ddeunyddiau cwricwlwm ar-lein i ychwanegu at y gwaith a wnânt yn yr ysgol. Yn ychwanegol, gall disgyblion ddatblygu eu medrau ymchwil ac maent yn cymhwyso hyn i waith cartref neu brosiectau gwaith cwrs.
- Mae gwersi ychwanegol, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg, wedi datblygu dealltwriaeth disgyblion yn y pynciau hyn.
- Mae’r ysgol yn cefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion trwy ariannu cwrs hyfforddi dwys, sy’n rhoi cymorth targedig i unigolion. Maent yn darparu pecynnau adolygu allgyrsiol mewn mathemateg a Saesneg hefyd. Mae plant sy’n derbyn gofal yn mynychu’r gweithgareddau hyn yn ystod cofrestru, ar ôl yr ysgol ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal wedi cael ei ddefnyddio i ariannu cludiant i alluogi disgyblion i aros ar ôl yr ysgol a’u cludo adref yn ddiogel.
- Fe wnaeth mwyafrif y disgyblion elwa ar y deunyddiau adolygu, y canllawiau pwnc a’r offer a brynwyd ar gyfer meysydd pwnc fel celf ac addysg gorfforol.
- Prynwyd peiriant a deunyddiau gwnïo. Fe wnaeth y rhain alluogi disgyblion i gwblhau eu gwaith cwrs tecstilau. O ganlyniad, nid oeddent dan anfantais yn sgil diffyg cyfle i ddefnyddio offer priodol gartref.

Ehangu profiad diwylliannol plant sy’n derbyn gofal:

- Defnyddia’r ysgol y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy’n derbyn gofal i ariannu ymweliadau addysgol, gan gynnwys profiadau dysgu dramor.
- Ceir cyfleoedd sylweddol ar gyfer dysgu y tu allan i’r ysgol yn yr ysgol. Mae amrywiaeth o glybiau, cyfleoedd chwaraeon, ymweliadau, digwyddiadau arbennig, cysylltiadau â’r gymuned a gweithgareddau allgyrsiol eraill ar gael i

blant sy'n derbyn gofal. Mae llawer o blant yn cymryd rhan mewn o leiaf un clwb. Mae'r ysgol yn gosod targedau yn CAPau disgyblion i gymryd rhan mewn dysgu y tu allan i'r ysgol.

Gweithio gyda gofalwyr maeth:

- Sefydlwyd rhaglen 'Help Llaw' i gynorthwyo rhieni neu ofalwyr y disgyblion sydd fwyaf agored i niwed i ddatblygu eu medrau mewn meysydd a fydd yn ddefnyddiol i anghenion y disgyblion.
- Mae'r Caffi Darllen yn darparu man lle gall gofalwyr weithio ochr yn ochr â'u plant a'u cynorthwyo mewn darllen mewn grŵp dan arweiniad. Mae hyn yn helpu i feithrin perthnasoedd tra'n gwella medrau llythrennedd a rhifedd.
- Datblygwyd cysylltiadau gyda'r llyfrgell leol hefyd, sy'n cefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr. Mae hyn hefyd yn rhan o'r 'Rhaglen Partneriaeth â Rhieni' ehangach, sy'n ennyn diddordeb rhieni a gofalwyr ym mywyd yr ysgol, gan roi dealltwriaeth iddynt o'r dulliau a ddefnyddir i addysgu llythrennedd a rhifedd.

**Deilliannau**

- O ganlyniad i'r cymorth a'r ystod eang o gyfleoedd a ddarperir, caiff plant sy'n derbyn gofal yr un cyfle i fanteisio ar brofiadau dysgu. Mae'r profiadau hyn yn paratoi'r disgyblion trwy ddysgu medrau cymdeithasol a medrau bywyd gwerthfawr iddynt.
- Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac fe gânt gyfleoedd i gymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol. Mae cyfradd presenoldeb plant sy'n derbyn gofal, sef 95%, yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ddisgyblion eraill.
- Nid oes unrhyw blant sy'n derbyn gofal wedi cael eu gwahardd yn barhaol yn y tair blynedd ddiwethaf, ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel iawn.
- Trwy brofiadau diwylliannol, mae disgyblion yn ennill dealltwriaeth well o wahanol gymunedau, ac maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ehangach.
- Dros gyfnod, daw disgyblion yn fwy hyderus. Mae eu hymdeimlad o werth a hunan-barch yn tyfu.
- Yng nghyfnod allweddol 3, llwyddodd llawer o ddisgyblion i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran yn y pynciau craidd. Llwyddodd yr holl ddisgyblion i gyflawni dangosyddion lefel 1 a lefel 2 mewn TGAU.
- Mae'r adnoddau ychwanegol a brynwyd, yn ogystal ag amserlen bwrpasol, wedi cynorthwyo un disgybl i gyflawni gradd A ar gyfer elfen ymarferol ei gwrs dylunio a thechnoleg TGAU.
- Ar ddiwedd Blwyddyn 7, cynhelir noson cyflawniad, lle rhoddir nifer o wobrau. Mae'r rhain yn dathlu llwyddiannau plant sy'n derbyn gofal.
- Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae cyflawniadau plant sy'n derbyn gofal wedi cael eu cydnabod. Maent wedi cael gwobrau amrywiol, gan gynnwys gwobr 'Ysbryd Brynteg' ('Spirit of Brynteg'), gwobr dinasyddiaeth noddedig a gwobrau'r cyngor ysgol, medrau a Phencampwyr Cystadleuaeth Sillafu.

95 Yn Ysgol Arbennig Greenfield ym Merthyr Tudful, roedd y cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol wrth fonitro'r adnoddau a'r ddarpariaeth yn sgil cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y llynedd. Fe wnaeth

gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth disgyblion gyfrannu at adolygu effaith y defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal hefyd. Fodd bynnag, nid yw ymglymiad gofalwyr maeth mewn cynllunio ar gyfer defnyddio'r grant yn nodwedd gyffredin ar draws ysgolion yng Nghymru.

96 Ychydig iawn o ysgolion arbennig annibynnol sy'n cael y Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ystyried bod y cyllid a ddarperir ar gyfer lleoliadau yn cwmpasu pob agwedd ar y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion. Pan drefnwyd bod cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar gael, mae lleiafrif o ysgolion wedi ei ddefnyddio i ddarparu cyfle cynyddol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a diwylliannol fel teithiau i'r theatr.

97 Er mis Ebrill 2015, mae consortia addysg rhanbarthol yn gyfrifol am gyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd yn ofynnol i gonsortia greu cynlluniau gwariant a oedd yn amlinellu'n glir sut y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio yn y consortia a'r manteision disgwyliedig i blant sy'n derbyn gofal. Lluniodd pob un o'r consortia gynllun gwariant sy'n amlinellu ei egwyddorion bras. Prif flaenoriaethau pob un ohonynt yw deilliannau sy'n gwella mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae blaenoriaethau ychwanegol yn cynnwys ymyrraeth gynnar, olrhain cynnydd a chymorth disgyblion unigol ar gyfer staff ysgol trwy gyfleoedd cynyddol i hyfforddi.

98 Ceir amrywiad sylweddol yn lefel y manylder mewn cynlluniau consortia. Nid yw'r rhesymwaith ar gyfer blaenoriaethau bob amser yn glir. Mae camau gweithredu sydd angen eu cymryd weithiau'n rhy annelwig ac yn aml yn ymwneud â phrosesau yn hytrach na'r manteision neu'r deilliannau disgwyliedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Ni ddarperir costau yn erbyn meysydd blaenoriaeth mewn hanner o'r cynlluniau gwariant. Yn ychwanegol, ceir diffyg eglurder ynglŷn â'r modd y caiff arian ei ddirprwyo i ysgolion neu sut gall ysgolion ddefnyddio'r grant i gefnogi anghenion penodol disgyblion unigol. Mae'r ansicrwydd hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion, yn enwedig lle maent yn cynnal lefel o wasanaeth a oedd yn cael ei ariannu trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn y gorffennol.

99 Nid oedd y consortia rhanbarthol mewn sefyllfa dda i benderfynu sut i ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid oedd ganddynt arbenigedd yn y maes hwn, ni wnaethant ymgynghori'n ddigon eang ag ymarferwyr arbenigol i gael cipolwg ehangach ar yr heriau, ac ni wnaethant ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael i lywio eu cynlluniau. Yn ychwanegol, roedd y raddfa amser a roddwyd iddynt greu cynlluniau gwariant ystyrlon yn rhy fyr.

100 Nid oes gan gonsortia rhanbarthol ddealltwriaeth ddigon da o ble y ceir arfer dda neu effeithiol yn eu hawdurdodau lleol eu hunain neu'r tu hwnt. O ganlyniad, nid ydynt yn cynnwys arferion sy'n effeithiol ac maent yn ansicr ynghylch p'un a fydd y dulliau sy'n cael eu cynnwys yn eu cynlluniau yn llwyddiannus.

101 O ganlyniad, nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o strategaeth y rhanbarth a'r hyn y mae'n ei olygu iddynt. Mae hyn wedi creu ansicrwydd ac mae llawer o ysgolion yn ansicr ynghylch p'un a fyddant yn gallu cynnal lefel fanylach y cwricwlwm a'r cymorth y maent yn eu darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Arfer dda mewn awdurdodau lleol

### Polisi awdurdodau lleol

102 Mae ansawdd polisïau awdurdodau lleol ar gyfer gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal yn rhy amrywiol. Yn yr holl awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae rolau a chyfrifoldebau ysgolion i gyflawni eu dyletswydd statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi eu hamlinellu'n glir yn eu polisi. Mae hyn yn cynnwys creu CAPau, a phenodi athro a llywodraethwr dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn yr achosion gorau, ysgrifennwyd polisïau yn dilyn ymgynghori ag ysgolion, gofalwyr a phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r polisïau hyn yn rhoi cyfeiriad clir i ysgolion sicrhau mai gwella cyflawniad y plant sydd wrth wraidd eu gwaith. Er enghraifft, yng Nghonwy, mae gofyniad bod pob ysgol yn cynnwys gwella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn eu cynllun datblygu ysgol a bod ymgynghorwyr her yn herio ysgolion i osod targedau addysgol priodol ar gyfer eu plant. Mae'r polisi yn sicrhau hefyd y bydd yr awdurdod yn cludo plant sy'n derbyn gofal i'w hysgol wreiddiol os yw hyn er lles y plentyn.

103 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau awdurdodau lleol yn rhannu blaenoriaethau cyffredin, fel annog yr holl blant sy'n derbyn gofal i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a gwneud yn siŵr bod systemau datblygedig ar gyfer olrhain amseroldeb ac ansawdd CAPau. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oes polisi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac nid yw'r awdurdod lleol yn gosod targedau priodol ar gyfer cyrhaeddiad a chyflawniad y plant hyn. Mewn ychydig iawn o awdurdodau, nid oes CAP gan yr holl blant sy'n derbyn gofal. Ledled Cymru, nid yw CAPau bob amser yn dilyn yr un fformat ac nid yw pob CAP yn canolbwyntio'n ddigon da ar gyrhaeddiad addysgol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ni chaiff cyflawniadau nad ydynt yn academaidd eu holrhain ar y cyfan.

104 Gellir gweld enghraifft o CAPau sy'n addas ar gyfer plant yn Atodiad 3.

105 Er mwyn ymgysylltu o'r newydd â phlant sy'n derbyn gofal mewn dysgu, mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi sefydlu rhaglen hyfforddeiaeth. Mae hyfforddeiaethau ar gael mewn adrannau awdurdodau lleol. Caiff hyfforddeion eu cynorthwyo trwy gydol y rhaglen gan gydlynydd. Mae menter Teuluoedd yn Gyntaf wedi ariannu tiwtor i weithio gyda hyfforddeion i ddatblygu agweddau eraill ar eu medrau cyflogadwyedd, er enghraifft ysgrifennu curriculum vitae (CV).

**Astudiaeth achos 9: Cyngor Dinas Caerdydd – rhaglen hyfforddeiaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

**Cyd-destun**

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi croesawu'r dyletswyddau cyfreithiol ynghylch deilliannau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae dros 600 o blant yng Nghaerdydd sy'n derbyn gofal. Mae tua dau o bob tri o'r plant hyn o oedran ysgol statudol.

Yn 2014, lansiwyd rhaglen hyfforddeiaeth gan yr awdurdod lleol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Mae’n rhoi cyfleoedd i’r rheiny sy’n gadael gofal sicrhau lleoliadau gwaith yn adrannau’r awdurdod lleol. Mae’r fenter hon wedi cael cefnogaeth lawn gan y Cyngor, ac mae wedi ei chynnwys yn amcan corfforaethol cyntaf y Cyngor.

Mae hyfforddeiaethau yn rhoi cyfle i ddatblygu medrau newydd yn seiliedig ar waith a medrau datblygiad personol. Yn ychwanegol, maent yn canolbwyntio ar fedrau rhifedd a llythrennedd sylfaenol.

**Strategaeth**

Gwella deilliannau ar gyfer plant/pobl ifanc sy’n gadael gofal a’r bobl ifanc hynny sy’n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol trwy ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant iddynt a fydd yn gwella eu deilliannau cyflogaeth yn y tymor hir.

**Gweithredu**

Ym mis Mawrth 2015, penodwyd cydlynydd hyfforddeiaeth dynodedig ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a’r rheiny sy’n gadael gofal. Ei rôl yw cysylltu â rheolwyr yn yr awdurdod lleol i sicrhau cyfleoedd hyfforddeiaeth. Hyd yn hyn, mae 38 o gyfleoedd hyfforddeiaeth ar gael. Yn ychwanegol, mae’r cydlynydd yn cysylltu ag asiantaethau cyfeirio, yn cynllunio cyfweliadau ar gyfer darpar hyfforddeion ac yn rhoi cymorth parhaus i’r hyfforddeion. Mae’r cymorth hwn yn cynnwys trefnu cardiau bws, cludo pobl ifanc i gyfweliadau a mynd gyda nhw i leoliadau i’w helpu i ymgynefino’n gyflym.

Mae’r cydlynydd wedi creu proses gyfeirio ac mae’n gweithio gyda staff cyfeirio o wasanaethau cymdeithasol, y tîm troseddau ieuenctid a’r gwasanaeth gyrfaoedd.

Mae’r awdurdod lleol yn defnyddio systemau cyfathrebu mewnol yn dda i hyrwyddo’r cynllun ymhlith staff, er enghraifft trwy Gylchlythyr y Gwasanaethau Plant, erthygl yn y Capital Times, y fewnrwyd ac mewn bonynnau cyflog. Yn ychwanegol, crëwyd deunyddiau hyrwyddo hefyd, gan gynnwys llyfryn hyfforddeiaeth.

Sicrhawyd nifer fach o leoedd ar y cynllun prentisiaeth corfforaethol ar gyfer hyfforddeion sy’n cwblhau’r rhaglen hyfforddeiaeth i blant sy’n derbyn gofal yn llwyddiannus.

Mae’r awdurdod lleol wedi cryfhau ei gysylltiadau â Choleg Caerdydd a’r Fro i ddarparu profiadau hyfforddeiaeth a sicrwydd o gyfweliadau mewn rhai meysydd galwedigaethol.

**Deilliannau**

- Derbyniwyd pum deg naw o gyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc.
- Aeth tri deg pump y cant ymlaen i gael eu cyfweld gan reolwyr tîm yn y cyngor.
- Roedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc a gafodd eu cyfweld yn llwyddiannus ac fe’u penodwyd i hyfforddeiaethau.
- Cafodd bron pob un o’r hyfforddeion eu cynorthwyo gan y cydlynydd hyfforddi yn ystod eu lleoliad.
- Aeth y rhan fwyaf o hyfforddeion ymlaen naill ai i gyflogaeth, gan gynnwys

prentisiaethau neu addysg bellach.
- Llwyddodd un o bob pump o hyfforddeion i ennill cymwysterau allanol, sy'n amrywio o lefel Mynediad i lefel 2, mewn gwella eu dysgu eu hunain, cyfathrebu yn y gweithle a hyder a datblygiad gwell.

**Strategaeth awdurdodau lleol**

106 Yn yr holl awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, ceir strategaeth glir ar gyfer cefnogi a gwella cyflawniad plant sy'n derbyn gofal. Rhennir gwybodaeth berthnasol trwy baneli rhianta corfforaethol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Ceir cyfathrebu effeithiol trwy adrodd yn flynyddol i bwyllgorau craffu a rhanddeiliaid eraill. Mae aelodau etholedig neu uwch swyddogion, fel cyfarwyddwyr addysg neu wasanaethau plant, yn cadeirio paneli rhiant corfforaethol ac mae ganddynt gyfrifoldeb am oruchwylio'r strategaeth rianta gorfforaethol.

107 Mae gweledigaeth a nodau codi cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn gyffredin i bob asiantaeth ac mae cyfrifoldebau cyffredin ar y cyd yn amlwg. Mae cyfrifoldebau'n cynnwys olrhain, monitro ac adolygu deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Maent hefyd yn cynnwys datblygu darpariaeth a chymorth targedig ar gyfer plant, a hyfforddi staff gwasanaethau cymdeithasol, gofalwyr maeth ac ysgolion.

108 Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, caiff data sy'n cynnwys deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ei egluro'n ddigonol yn strategaeth yr awdurdod. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw defnyddio data penodol wedi cael ei ystyried yn ddigon trylwyr wrth ffurfio'r strategaeth.

109 Mewn llawer o awdurdodau lleol, ni wrandawyd ar lais plant sy'n derbyn gofal, felly ni chaiff hyn ei gyfleu yn ddigonol fel rhan o'r strategaeth.

110 Yng Nghyngor Sir Penfro a Chyngor Conwy, y cyfarwyddwyr addysg yw penaethiaid yr ysgolion rhithwir. Mae'r ysgolion rhithwir, a arweinir gan y cyfarwyddwyr, yn monitro'r holl ddeilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gall yr awdurdodau hyn ddangos yr effaith ar ystod o ddeilliannau ar gyfer y grŵp hwn o blant.

**Astudiaeth achos 10: Cyngor Sir Penfro – effaith model yr ysgol rithwir**

**Cyd-destun**

Mae ERW yn dyrannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unol â chyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion (CYBLD), sy'n cyfrif nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Sir Benfro, gan gynnwys plant o siroedd eraill sy'n cael eu lleoli yn Sir Benfro. Mae 115 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghyngor Sir Penfro ar hyn o bryd, ac mae llawer o'r rhain o oedran ysgol.

Mae Cyngor Sir Penfro bellach yn olrhain cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy ysgol rithwir. Nod yr ysgol rithwir yw hyrwyddo ymgysylltu mewn dysgu a lles cadarnhaol ar gyfer y plant hyn.

**Strategaeth**

Amcan yr ysgol rithwir yw cynyddu ymgysylltiad disgyblion â dysgu trwy bartneriaethau gweithio cydweithredol. Mae’r partneriaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau ag ysgolion, gweithwyr proffesiynol yn Sir Benfro ac awdurdodau lleol eraill, ERW a Llywodraeth Cymru.

Dyma’r unigolion cyswllt allweddol yn yr ysgol rithwir:

- y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion
- y Rheolwr Gwasanaethau Plant sy’n Derbyn Gofal mewn Gofal Cymdeithasol
- yr Uwch Seicolegydd Addysg
- yr Ymgynghorydd Her Arweiniol
- yr Athro Ymgynghorol ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal

Mae’r gweithwyr proffesiynol allweddol hyn yn cyfarfod bob hanner tymor i fonitro presenoldeb a chynnydd. Crëwyd cronfa ddata bwrpasol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Mae hyn yn galluogi’r awdurdod lleol i olrhain data presenoldeb ac asesu plant sy’n derbyn gofal.

Trafodir materion sydd wedi codi o CAPau y disgyblion hefyd, ac mae’r grŵp o weithwyr proffesiynol allweddol yn nodi ymyriadau i wella deilliannau.

Mae bwrsari ariannol ar gael i’r disgyblion hynny y mae angen pecynnau pwrpasol arnynt neu i ysgolion sydd angen hyfforddiant neu gymorth ar gyfer materion penodol.

Mae staff yr ysgol rithwir yn arwain mewn hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth a llywodraethwyr ysgol. Mae’r ysgol rithwir yn monitro rhaglen hyfforddi Ysgolion ag Ymwybyddiaeth o Ymlyniad ERW, sydd â’r nod o feithrin gallu ac annog ysgolion i hunanwella o ran cryfhau deilliannau ar gyfer eu dysgwyr.

**Gweithredu**

Cynhelir trafodaethau dyddiol rhwng staff addysg ac ystod eang o weithwyr proffesiynol sy’n cymryd rhan yn addysg a gofal plant sy’n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys athrawon ymgynghorol, seicolegwyr addysg, anogwyr dysgu a’r gweithwyr cymdeithasol yn y timau asesu gofal plant, plant mewn angen a rhianta corfforaethol.

Caiff CAPau eu cofnodi ar y systemau data gofal cymdeithasol ac addysg fel ei gilydd. Caiff data ei rannu’n rheolaidd ar y bwrdd rhianta corfforaethol a’r pwyllgor trosolwg a chraffu. O ganlyniad, mae aelodau etholedig yn wybodus ynghylch statws a chynnydd plant sy’n derbyn gofal.

Mae staff gofal cymdeithasol a disgyblion yr ysgol rithwir wedi cymryd rhan yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar ei strategaeth ddrafft ar gyfer codi cyflawniadau addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.

**Deilliannau**

Ar gyfer y data diweddaraf yn 2014, mae Cyngor Sir Penfro wedi dangos gwelliant yn

erbyn dangosyddion perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

- Mae canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith neu fwy tra byddant yn derbyn gofal wedi gostwng o 22.1% i 14.67% ac mae'n parhau i ddisgyn.
- Mae sgôr pwyntiau cyfartalog cyfnod allweddol 4 wedi cynyddu o 226 i 402 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Mae ffigurau presenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella o 94.2% i 95.5% ac 89.2% i 93.7% yn y drefn honno.
- Mae cyfran y CAPau sy'n cael eu cwblhau o fewn 20 diwrnod wedi codi i 92%.
- Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 o 22% i 60%.
- Cynyddodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 o 28.6% i 57%.
- Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol, ac mae hyn yn parhau.
- Mae hyd y gwaharddiadau cyfnod penodol wedi disgyn o 6.6 diwrnod i 2.2. diwrnod ar gyfartaledd.

111 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae strategaethau awdurdodau lleol yn canolbwyntio'n gryf ar ddull gweithio amlasiantaethol integredig. Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn gyswllt allweddol rhwng gwasanaethau addysg a phlant, ac mewn rhai achosion, maent wedi eu lleoli gyda chydweithwyr gwasanaethau plant. Yn ychwanegol, mae gan asiantaethau tai, cyfiawnder ieuenctid a'r trydydd sector rôl bwysig yng ngwaith y paneli rhianta corfforaethol.

112 Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng pwyllgorau cyngor a phaneli perthnasol wedi llwyddo i godi proffil y rhiant corfforaethol.

113 Yn yr ysgol rithwir yng Nghonwy, trafodir astudiaethau achos unigol mewn cyfarfodydd panel. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau partner yn arfarnu eu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn barhaus. Mae'r awdurdod lleol yn fyfyriol ac yn parhau i wneud gwelliannau i'w gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

114 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu meithrin gallu ysgolion i ddarparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal trwy hyfforddiant ar gyfer staff ysgol dynodedig mewn anhwylder ymlyniad, er enghraifft. O ganlyniad, mae llawer o ysgolion wedi dod yn fwy effeithiol o ran eu darpariaeth a'u cymorth. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant bob amser yn ymestyn i holl staff yr ysgol.

115 Yn sgil meithrin gallu mewn ysgolion i ddarparu ar gyfer plant ag anghenion emosiynol sylweddol, mae rhai awdurdodau lleol wedi gallu lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir trwy greu pecynnau gofal sy'n cynnwys darpariaeth ac arbenigedd lleol.

116 Mewn ychydig iawn o awdurdodau, ceir cytundebau lefel gwasanaeth effeithiol gyda gwasanaethau seicoleg addysg i gefnogi datblygiad iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal trwy ymyriadau grŵp mewn ysgolion.

117 Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, mae'r strategaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn aneglur. Yn yr awdurdodau hyn, nid oes cynllun cydlynus ar gyfer hyfforddi aelodau etholedig ar faterion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau etholedig ynglŷn â'u rôl fel rhieni corfforaethol o ran codi cyrhaeddiad a chyflawniad plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, yn rhy amrywiol.

**Rôl aelodau etholedig**

118 Ym mwyafrif yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant gwerth chweil mewn agweddau pwysig ar ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gosod targedau, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a'r anawsterau sy'n cael eu profi gan y rheiny sy'n gadael gofal. O ganlyniad i adroddiadau a chyflwyniadau rheolaidd i'r paneli rhianta corfforaethol, mae aelodau etholedig yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â'r plant yn eu gofal.

119 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2013) wedi creu canllaw defnyddiol ar gyfer aelodau etholedig. Mae Canllaw i Aelodau Etholedig yn Nhorfaen yn amlinellu'n glir rôl aelodau etholedig o ran gweithredu fel rhieni corfforaethol. Yn ogystal ag amlinellu gwybodaeth am wasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen, mae'r llawlyfr yn atgoffa aelodau etholedig i ofyn y cwestiynau canlynol: Beth pe bai hwn yn blentyn i mi? A fyddai'n ddigon da iddo? A fyddai hyn yn ddigon da i mi?

120 Yng Nghonwy, comisiynwyd DVD gan aelodau etholedig a oedd yn cofnodi safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal. Mae'r DVD, 'Looked After Ambition', yn amlygu ffactorau sy'n cynorthwyo'r rheiny sy'n gadael yr ysgol sydd mewn gofal yng Nghonwy i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Yn ychwanegol, fe wnaeth yr awdurdod lleol ariannu prosiect dilynol yn ddiweddar, sef 'Loud Voices in Conwy', i arfarnu effaith 'Looked After Ambition' a chynllunio ar gyfer gwella.

121 Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol adrodd i bwyllgorau craffu gwasanaethau plant ac i Lywodraeth Cymru ar ystod o ddangosyddion perfformiad yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys presenoldeb, gwaharddiadau, p'un a yw'r awdurdod lleol yn darparu CAP o fewn 20 diwrnod a chanran y plant sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2-4. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar y sgôr pwyntiau cymhwyster allanol cyfartalog yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer plant mewn unrhyw leoliad a gynhelir gan awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys y plant hynny sy'n derbyn gofal sy'n cael eu haddysg mewn lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ofyniad i adrodd ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn erbyn trothwyau lefel 1 neu lefel 2. Yn ychwanegol, nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar gyraeddiadau plant sy'n derbyn gofal yng nghyfnod allweddol 5. O ganlyniad, mae'r gyfundrefn adrodd bresennol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4 a thu hwnt, yn gyfyngedig.

122 Mae'r holl awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth am berfformiad am ddeilliannau disgyblion gyda'u pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, mae maint ac amrywiaeth y garfan yn gwneud cymariaethau yn anodd. O ganlyniad, mae llawer o awdurdodau lleol yn adrodd am gynnydd unigol dros gyfnod wrth aelodau etholedig.

123 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae anghysondebau yn y modd yr adroddir am ddangosyddion perfformiad wrth y pwyllgor craffu. Er enghraifft, darperir gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt. Yn ychwanegol, ceir amrywiad yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn adrodd ar blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. O ganlyniad, mae hyn yn achosi dryswch a chamddealltwriaeth ac ni roddir gwybodaeth gywir i aelodau etholedig.

## Systemau gwybodaeth reoli

124 Mae'r holl awdurdodau lleol yn defnyddio systemau gwybodaeth reoli i gofnodi cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ac mae bron pob un ohonynt yn cofnodi data ar bresenoldeb, gwaharddiadau a symudiadau disgyblion rhwng ysgolion. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer[3] (FFT) yn effeithiol i arfarnu cyrhaeddiad eu plant sy'n derbyn gofal dros gyfnod. Fodd bynnag, rhai ohonynt yn unig sy'n dadansoddi deilliannau targedau CAP a nifer y symudiadau ysgol yn rheolaidd i benderfynu ble mae angen gwneud gwelliannau.

125 Nododd Cyngor Dinas Caerdydd fod y system gwybodaeth reoli hon wedi ei chyfyngu o ran olrhain y cynnydd a wna plant sy'n derbyn gofal yn eu haddysg. O ganlyniad, mae wedi rhoi olrheiniwr rhithwir ar waith sy'n galluogi iddo gofnodi a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad yr holl blant y maen nhw'n rhiant corfforaethol iddynt.

**Astudiaeth achos 11: Cyngor Dinas Caerdydd – sut mae'r system olrhain yn monitro cyraeddiadau a chyflawniadau plant sy'n derbyn gofal**

**Cyd-destun**

Mae 650 o blant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd. Mae tua dau o bob tri o'r plant hyn o oedran ysgol gorfodol. Caiff y plant sy'n derbyn gofal eu haddysgu yn ysgolion Caerdydd, eu haddysgu mewn ysgolion y tu allan i Gaerdydd neu'u lleoli yng Nghaerdydd gan awdurdodau eraill a'u haddysgu yn ysgolion Caerdydd.

**Strategaeth**

Er bod gan y Cyngor system ar gyfer olrhain cynnydd plant, nid oedd y system yn cynnwys gwybodaeth werthfawr gan wasanaethau plant, gan ysgolion na chan wasanaethau eraill o fewn y gyfarwyddiaeth addysg.

**Gweithredu**

Bu'r awdurdod yn gweithio gydag ystod o bartneriaid oddi mewn i'r awdurdod, ysgolion a'r consortiwm addysg rhanbarthol i sefydlu:

- dealltwriaeth ar y cyd o'r term 'derbyn gofal'
- o ba bryd yr oedd angen i'r awdurdod olrhain disgyblion a phryd yr oeddent yn rhoi'r gorau i'w holrhain
- pa ddata oedd ei angen i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithlon ac yn effeithiol
- pwy oedd yn cadw'r wybodaeth oedd ei hangen, a pha mor hawdd y gellid mynd

[3] Ystod o ddata disgyblion, ysgolion ac awdurdodau lleol ar berfformiad addysgol plant

at y wybodaeth
- dyrannu adnoddau i ddatblygu'r system

Mae'r olrheiniwr bellach ar waith ac yn olrhain disgybl o'r adeg y bydd yn derbyn gofal nes y bydd ei statws yn newid.

Mae'r system olrhain yn creu adroddiad cryno unigoledig ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal.

Mae gweithwyr proffesiynol yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y system olrhain mewn cyfarfodydd amlasiantaethol misol i fonitro cynnydd disgyblion unigol a sicrhau bod ymyrraeth fwy amserol a phriodol yn digwydd pan fydd angen.

Mae'r awdurdod wedi cydnabod bod angen mireinio'r system olrhain hyd yn oed ymhellach. Mae'n bwriadu cynnwys:

- asesiad o anghenion cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion
- gwybodaeth am asesiadau tymhorol athrawon

**Deilliannau**

- Mae Caerdydd yn meddu ar ddealltwriaeth well o gynnydd y plant sy'n derbyn gofal a gall rannu'r wybodaeth sydd ganddi gydag ysgolion ac awdurdodau sy'n lleoli disgyblion yng Nghaerdydd.
- Mae adroddiadau unigol ar gael ac yn cynnwys gwybodaeth am hanes ysgolion a lleoliadau, canlyniadau asesiadau cyfnodau allweddol, presenoldeb presennol ac unrhyw waharddiadau. O ganlyniad, caiff cydweithwyr wybodaeth gyfoes am blant. Felly, cânt eu hysbysu'n well am y cynnydd a wna plant.
- Mae olrhain wedi galluogi'r awdurdod i nodi anghenion ychwanegol o ran y cwricwlwm a chymorth.
- Mae'r system olrhain wedi galluogi'r awdurdod i gryfhau atebolrwydd gwasanaethau. Mae'n adolygu effaith cymorth ychwanegol ar ddisgyblion yn rheolaidd.
- Mae olrhain bellach yn ymestyn i'r adeg pan fydd plentyn yn gadael gofal.

**Penderfyniadau am leoliad**

126 Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn cynnal paneli lleoliad ar y cyd â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau plant i gynllunio ac adolygu darpariaeth ar gyfer disgyblion y mae angen lleoliadau neu adnoddau arbenigol costus arnynt. Mae hyn yn galluogi cyfeirio adnoddau at gefnogi anghenion iechyd emosiynol plant sy'n derbyn gofal, er enghraifft trwy ariannu gweithiwr cymdeithasol addysgol neu seicolegydd i weithio'n gyfan gwbl gyda'r disgyblion hyn yn yr awdurdod.

127 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnal cyfarfodydd panel cyn-lleoli rheolaidd i wneud penderfyniad corfforaethol ynglŷn â'r lleoliad gorau ar gyfer eu plant sy'n derbyn gofal. Mae'r holl awdurdodau lleol yn credu bod sefydlogrwydd lleoliadau gofal yn hollbwysig a bod cynnal lleoliadau ysgol da yn hanfodol i les y plentyn. Mae

gan lawer ohonynt bolisi i flaenoriaethu'r lleoliad ysgol hyd yn oed ar ôl i ofal teuluol fethu er mwyn cynnal cyfeillgarwch a sefydlogrwydd addysgol. Yn yr achosion hyn, ystyrir asesiadau risg priodol a llais y plentyn.

128 Mae gan Gyngor Torfaen bartneriaeth hirsefydledig gyda'r trydydd sector. Bu hyn yn fuddiol o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd mewn lleoliadau gofal preswyl y tu allan i'r sir.

**Astudiaeth achos 12: Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – gweithio gyda'r trydydd sector**

**Cyd-destun**

Dros nifer o flynyddoedd, mae Cyngor Torfaen a'r bwrdd iechyd lleol wedi ariannu Gweithredu dros Blant i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal sy'n arddangos ymddygiad cymhleth, heriol a mentrus. Mae angen adnoddau sylweddol ar y bobl ifanc hyn i'w rheoli a'u cynnal yn eu cymuned. Byddant wedi profi nifer o fethiannau o ran lleoliad, ac mae'n debygol y byddant wedi cael eu derbyn i ddarpariaeth breswyl ac yn aml wedi eu gwahardd o addysg. O ganlyniad, efallai bydd angen darpariaeth fwy arbenigol arnynt.

Mae 290 o blant sy'n derbyn gofal yn Nhorfaen ac mae 86% o'r rhain o oedran ysgol statudol.

Tîm iechyd meddwl Haen 3 yw Gwasanaeth Ymyrraeth Amlddisgyblaethol Torfaen (MIST) a gynhelir gan Gweithredu dros Blant.

**Strategaeth**

Nod yr awdurdod lleol yw dod â phobl ifanc allan o ofal preswyl y sir yn ôl at berthnasau neu leoliadau gofal maeth yn eu cymunedau cartref.

**Gweithredu**

Mae tîm MIST yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau. Nyrs iechyd meddwl sydd â chefndir mewn cymunedau therapiwtig, troseddau pobl ifanc a seicotherapi yw'r rheolwr. Yn ychwanegol, mae'r arweinydd clinigol yn seicolegydd clinigol ymgynghorol sydd â chefndir mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS).

Mae cyfeiriadau am gymorth gan MIST yn mynd i grŵp llywio amlasiantaethol. Mae swyddog addysg o'r awdurdod lleol yn aelod o'r panel. Mae'r grŵp yn trafod y cyfeiriadau newydd a'r cyfeiriadau presennol ac yn dyrannu adnoddau ar sail anghenion y bobl ifanc. Mae anghenion addysgol yr unigolyn ifanc yn rhan annatod o'r cynllunio.

Mae gwaith MIST yn cynnwys lleoliadau therapiwtig, gweithwyr allweddol a chymorth gyda lleoliadau.

Mae gan MIST bum lleoliad gofal maethu therapiwtig. Mae'r gwasanaeth yn

gweithio'n therapiwtig gyda'r bobl ifanc, gan ddefnyddio amrywiaeth o therapïau seicolegol unigol a mewnbynnau yn seiliedig ar weithgarwch fel drama, cerddoriaeth a chelf. Mae hefyd yn darparu cymorth ymarferol, cyfeillio a chymorth dysgu. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r holl weithwyr proffesiynol eraill sy'n cymryd rhan yng ngofal ac addysg pob unigolyn ifanc. Darperir cyngor a chymorth i'r ysgol, fel bod ganddi ddealltwriaeth well o anghenion emosiynol yr unigolyn ifanc.

Pennir gweithiwr allweddol ar gyfer pob unigolyn ifanc. Mae'r gweithiwr allweddol yn gweithio gyda'r cartref i ddyfeisio rhaglen unigoledig o ymyriadau therapiwtig.

Mae MIST hefyd yn cynorthwyo nifer o bobl ifanc sydd yn lleoliadau gofal maethu'r awdurdod lleol ac yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae'r tîm yn darparu ymgynghoriadau a chyngor pan fydd materion yn codi sy'n bygwth sefydlogrwydd lleoliad. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwaith allymestyn i bobl ifanc a'u darparwr lleoliad pan fydd angen. Mae'n darparu hyfforddiant, ymgynghori, sgyrsiau a chynrychiolaeth ar baneli anghenion cymhleth.

**Deilliannau**

- Dros gyfnod o bedair blynedd, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi symud o gartrefi maethu lleol i ofal preswyl y tu allan i'r sir wedi disgyn o 14 i ffigurau sengl isel.
- Ceir niferoedd isel o hyd yn Nhorfaen o ddisgyblion sydd angen lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir.

**Rôl cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal**

129 Mae'r holl awdurdodau lleol yn ystyried bod rôl y cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn hanfodol i lwyddiant ei strategaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig o ran gwella eu cyrhaeddiad. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a gwaith y cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn gryf bron ym mhob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw. Pan fydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull ysgol rithwir, mae gan y cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal rôl ganolog mewn dadansoddi perfformiad plant sy'n derbyn gofal. Mae bron pob cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn llunio adroddiadau ar gyfer paneli rhainta corfforaethol ac mae ganddynt rôl strategol a gweithredol o ran creu ac adolygu polisi.

130 Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn gyswllt hanfodol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae ganddynt rôl werthfawr o ran rhoi gwybodaeth am ddisgyblion i ysgolion cyn eu lleoli yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn ansawdd y wybodaeth a gaiff ysgolion gan wahanol awdurdodau lleol. O ganlyniad, ni chaiff ysgolion eu paratoi'n llawn bob amser i fodloni anghenion addysgol, emosiynol neu anghenion eraill plant sy'n derbyn gofal. Mae cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal hefyd yn trefnu cymorth addysgol ychwanegol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys gwersi ac adnoddau ychwanegol, i gynorthwyo disgyblion â'u hastudiaethau. Er enghraifft, mewn ychydig iawn o ysgolion, mae'r cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal wedi darparu mentoriaid allanol i godi dyheadau disgyblion Blwyddyn 11.

131 Mae llawer o gydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn darparu hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer staff ysgol, llywodraethwyr, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol. Enghraifft o arfer orau yw cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal Conwy yn defnyddio dull astudiaeth achos mewn cyfarfodydd ysgol rithwir i fyfyrio ar blant unigol. Mae’r dull hwn yn cynnwys adran allweddol ar bwyntiau dysgu lle mae asiantaethau’n datgan beth y gellid bod wedi ei wneud yn well.

132 Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae cydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal yn monitro a sicrhau ansawdd CAPau ac yn defnyddio gwybodaeth ynddynt i roi gwybod i aelodau etholedig am gyflawniadau plant sy’n derbyn gofal. Er eu bod yn cydymffurfio â’r rheol 20 diwrnod, mae gormod o ffocws ar gydymffurfio ac mae llawer o anghysondebau yn ansawdd a phriodoldeb targedau’r CAP.

133 Ar draws awdurdodau lleol, mae’r cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yn hyrwyddo cyfathrebu effeithiol a phwrpasol rhwng ysgolion, adrannau addysg awdurdodau lleol, gwasanaethau plant ac asiantaethau perthnasol eraill. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni roddir gwybodaeth ddigon amserol i gydlynwyr addysg plant sy’n derbyn gofal am ddeilliannau penderfyniadau lleoli cymhleth. O ganlyniad, gall hyn arwain at oedi o ran sicrhau darpariaeth arbenigol ac adnoddau ychwanegol i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal.

134 Yn yr holl awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae’r cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yn sefydlu perthnasoedd da gyda phobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, swyddogion adolygu annibynnol, ysgolion a cholegau. Mae ymroddiad a brwdfrydedd y cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yn aml yn ategu mentrau llwyddiannus sy’n cynorthwyo plant sy’n derbyn gofal. Er enghraifft, mae gwaith gyda Thîm Ymgyrraedd yn Ehangach De Orllewin Cymru ym Mhrifysgol Abertawe wedi darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant sy’n derbyn gofal gael profiad o fywyd prifysgol am ddiwrnod. Nod y bartneriaeth hon yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt yn Ne Orllewin Cymru. Ceir ffocws penodol ar weithio gyda phlant sy’n derbyn gofal, y rheiny sy’n gadael gofal neu ddisgyblion o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

135 Nid yw’r cyswllt rhwng y cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal a’r gwasanaethau gwella ysgolion wedi ei ddatblygu’n ddigonol ac mae’r cydweithio ag ymgynghorwyr her yn gyfyngedig mewn tua hanner yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw.

## Gwaith gyda rhieni a gofalwyr

136 Mae ansawdd a defnyddioldeb y gwaith gyda rhieni a gofalwyr yn amrywio’n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn trefnu cynadleddau ar gyfer gofalwyr maeth, sy’n hyrwyddo eu gwaith ac yn eu galluogi i gyfarfod â gofalwyr eraill. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer eu gofalwyr i gyfoethogi eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ynghylch pa mor agored i niwed yn gymdeithasol ac yn emosiynol yw plant sy’n derbyn gofal. Mae’r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio’n dda ar ddeall trawma, profedigaeth a cholled, ymlyniad a phroblemau iechyd meddwl. Mae’r hyfforddiant hefyd yn darparu strategaethau a phartneriaethau i ofalwyr y gallant eu defnyddio i gynorthwyo’r plant y maent yn gofalu amdanynt i oresgyn anfantais. Mae llawer o

awdurdodau lleol yn darparu hyfforddiant i gefnogi lles gofalwyr maeth hefyd, fel rheoli straen a rheoli honiadau, yn ogystal â hyfforddiant ymwybyddiaeth hanfodol o ran camddefnyddio sylweddau ac alcohol, diogelu a diogelwch ar y rhyngrwyd.

137 Bron ym mhob achos, darperir hyfforddiant ar gyfer gofalwyr trwy wasanaethau cymdeithasol. Ychydig iawn o hyfforddiant a ddarperir ar gyfer gofalwyr ar wella deilliannau addysgol i blant sy'n derbyn gofal, ond mewn rhai achosion, mae'r cydlynydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn darparu cymorth addysgol gwerthfawr i ofalwyr maeth. Nid yw'r hyfforddiant a'r cymorth i ofalwyr plant ag anghenion cymhleth wedi ei ddatblygu'n ddigonol o hyd mewn llawer o awdurdodau.

138 Mae gofalwyr maeth yn Sir Benfro yn elwa ar hyfforddiant mewn ystod o destunau. Mae hyn yn cynnwys cynghori gofalwyr maeth am ddulliau a ddefnyddir gan ysgolion i wella medrau llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae gan y gofalwyr maeth ddealltwriaeth well o'r dulliau a ddefnyddir mewn ysgolion ac maent mewn sefyllfa well i gynorthwyo'r plant gartref.

139 Yn fwy diweddar, mae hyfforddiant wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth gofalwyr am y modd y mae ymennydd plant yn datblygu a'r modd y gall y datblygiad hwn gael ei effeithio pan fydd plentyn yn dioddef trawma. O ganlyniad, mae gan ofalwyr maeth ddealltwriaeth well o'u plant.

**Arfarnu ymyriadau a rhannu arfer orau**

140 Mae gan fwyafrif yr ysgolion systemau effeithiol ar waith i arfarnu ymyriadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ysgolion yn dangos perfformiad gwell ar gyfer cyraeddiadau a chyflawniadau plant sy'n derbyn gofal, sydd felly'n dangos effaith eu gwaith ar lefel ysgol gyfan a lefel unigol. Gall rhai ysgolion olrhain perfformiad plant sy'n derbyn gofal ar ôl nifer o flynyddoedd ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o effaith yr ymyriadau ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae'r olrhain hwn yn cynnwys perfformiad disgyblion yn erbyn targedau unigol ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad a chyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n defnyddio CAPau yn ddigon da i amlinellu'n glir pa raglen cymorth sydd fwyaf priodol ar gyfer disgyblion ac yn arfarnu hyn mewn cyfarfodydd dilynol.

141 Mae gan Ysgol Arbennig Greenfield ym Merthyr Tudful hanes da o arfarnu ei hymyriadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r arfarniadau hyn yn cynnwys ffocws priodol ar gynnydd disgyblion. Mae staff yn defnyddio astudiaethau achos yn rheolaidd i ddangos yr effaith a gaiff ymyriadau ar ddisgyblion unigol, er enghraifft mewn perthynas â'u gallu i reoli eu dicter a'u hymosodedd corfforol gartref, a'u dealltwriaeth o'r newidiadau i'w corff yn ystod cyfnod y glasoed.

142 Mae'r rôl fu gan awdurdodau lleol mewn arfarnu effaith yr ymyriadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn anghyson. Mae hyn yn berthnasol i strategaethau a ariennir trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion arbennig annibynnol lle mae disgyblion yn blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.

143 Rôl allweddol i’r cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yw cydnabod, rhannu a dathlu arfer orau. Mewn mwyafrif o awdurdodau, mae’r cydlynydd addysg plant sy’n derbyn gofal yn nodi arfer orau mewn adolygiadau o ddogfennau ac wrth ymweld â darparwyr. Maent yn sicrhau bod yr enghreifftiau hyn yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd perthnasol gyda swyddogion ac aelodau etholedig fel ei gilydd.

144 Ceir llawer o enghreifftiau o arfer orau yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ysgolion yn mynd ati i chwilio am arfer orau gan ysgolion eraill.

145 Nid yw mecanweithiau i hwyluso nodi a rhannu arfer orau, mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, wedi eu datblygu’n dda. O ganlyniad, nid yw ysgolion mor ymwybodol ag y mae angen iddynt fod o ymchwil berthnasol ar strategaethau a dulliau sy’n llwyddiannus o ran ymgysylltu â phlant sy’n derbyn gofal a chefnogi eu cyraeddiadau, eu cyflawniadau a’u huchelgeisiau.

146 Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn datblygu dealltwriaeth well o ble mae arfer dda yn bodoli yn eu hysgolion. Nodir arfer orau trwy adborth gan ysgolion ac asiantaethau eraill i’r awdurdod lleol hefyd. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cadw siart gyffredinol o arfer orau, ac nid yw’r trefniadau i arfarnu ymyriadau cyfoethog wedi eu datblygu’n ddigonol. Nid yw’r arfer o rannu arfer orau ysgolion penodol sy’n cynnig darpariaeth eithriadol o dda ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gydag ysgolion eraill yn yr awdurdodau lleol wedi ei datblygu’n ddigonol.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio ymweliadau ag 16 ysgol, chwe awdurdod lleol a'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda'r cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal o gonsortia addysg rhanbarthol ERW[4] a chonsortiwm Canolbarth y De[5]. Yn ychwanegol, rhannodd Voices from Care eu canfyddiadau cychwynnol o'u hadroddiad ar safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal ar eu profiadau o ofal ac addysg.

Mae'r sampl yn ystyried cefndir economaidd gymdeithasol, lleoliad daearyddol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Yn yr ymweliadau hyn, fe wnaeth arolygwyr:

- gyfarfod ag aelodau o staff ysgol sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal
- cyfarfod ag aelodau etholedig ac uwch swyddogion awdurdod lleol perthnasol
- cyfarfod ag uwch swyddogion o'r consortia rhanbarthol
- adolygu dogfennau ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia

Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o ganlyniadau arolygu ac o'r ffynonellau y cyfeirir atynt yn Atodiad 2.

Darparodd yr awdurdodau lleol canlynol ddogfennau i'r tîm arolygu, a ddefnyddiwyd i lywio cynllunio'r adroddiad cylch gwaith.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerffili | Caerdydd |
| Sir Gaerfyrddin | Ceredigion | Conwy | Sir Ddinbych |
| Gwynedd | Merthyr Tudful | Sir Fynwy | Sir Benfro |
| Powys | Rhondda Cynon Taf | Torfaen | Wrecsam |
| Bro Morgannwg | | | |

Defnyddiwyd tystiolaeth ychwanegol o:

- adroddiadau arolygu Estyn gan ysgolion ac awdurdodau lleol
- cyhoeddiadau diweddar, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio'r strategaeth plant sy'n derbyn gofal ar gyfer Cymru
- ystadegau cenedlaethol (gweler isod)

Daw'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o ddau gasgliad o ddata ystadegau cenedlaethol allweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Gan eu bod wedi eu seilio ar feini prawf ychydig yn wahanol, bydd y ffigurau sydd ar gael o'r naill a'r llall yn amrywio. Er enghraifft, mae ffurflen SSDA903 gan awdurdodau lleol yn cyfrif 5,617

[4] Mae consortiwm addysg ERW yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: Sir Gaerfyrddin, Powys, Ceredigion, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
[5] Mae consortiwm addysg Canolbarth y De yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

o blant sy’n derbyn gofal yn 2015, tra bod y Cyfrifiad Plant mewn Angen yn cyfrif 5,500 yn 2015. Mae’n glir trwy gydol y ddogfen o ba gasgliad data y cymerwyd y niferoedd. Gellir cael mwy o wybodaeth am y gwahaniaethau rhyngddynt yn y nodiadau ansawdd a gyhoeddwyd ynghyd â phob datganiad ystadegol priodol (gweler cyfeiriadau).

Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen yn cyfrif nifer y plant mewn angen a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth a rhaid eu bod mewn angen am o leiaf dri mis ar ddiwrnod y cyfrifiad. Ar gyfer ffurflen SSDA903, gallai plentyn ddechrau derbyn gofal ar 30 Mawrth a byddai’n cael ei gyfrif pe bai mewn gofal o hyd y diwrnod canlynol. Nid yw’r data a gyhoeddwyd oddi ar ffurflen SSDA903 yn cynnwys plant a oedd mewn gofal seibiant ar 31 Mawrth, tra bod y plant hyn wedi eu cynnwys yn y ffigur o Gyfrifiad CIN (ar yr amod eu bod wedi bod mewn gofal am dri mis).

**Ysgolion yr ymwelwyd â nhw**

Canolfan Datblygu Plant Woodlands, Wrecsam
Ysgol Arbennig Greenfield, Merthyr Tudful
Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh, Y Trallwng
Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy
Ysgol Gyfun Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gyfun Gymunedol Rhisga, Caerffili
Ysgol Gyfun Tonyrefail, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Colcot, Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Pen-y-bont, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Sirol Maerdy, Rhondda Cynon Taf
Ysgol Gynradd Tredelerch, Caerdydd
